# Agenda - Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol

Lleoliad:

**Ystafell Bwyllgora 4 (Tŷ Hywel)**

Dyddiad: Dydd Llun, 26 Ionawr 2026

Amser: 13.30

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:

**Rhys Morgan**

Clerc y Pwyllgor

0300 200 6565

SeneddCydraddoldeb@senedd.cymru

## Cyfarfod cyn y prif gyfarfod

(13:15-13:30)

## Cyfarfod cyhoeddus

(13:30- 15:30)

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

(13:30)

## 2 Bil Iaith Arwyddion Prydain (Cymru): trafodion Cyfnod 2

(13:30-15:30)

Mark Isherwood AS, yr Aelod sy'n Gyfrifol am y Bil

Gareth Rogers, Rheolwr Biliau, Comisiwn y Senedd

Gareth Howells, Gwasanaethau Cyfreithiol, Comisiwn y Senedd

Bydd y Pwyllgor yn gwaredu'r gwelliannau yn y drefn a ganlyn: Adrannau 1 i 5; Atodlen 1; Adrannau 6 i 11.

Bydd y dogfennau sy'n berthnasol i drafodion Cyfnod 2 ar gael ar dudalen we'r Bil.

## 3 Papurau i'w nodi

(15:30)

3.1 Gohebiaeth gan y Dirprwy Brif Weinidog a Chyfarwyddwr y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyfiawnder Cymdeithasol, y Trefnydd a'r Prif Chwip i'r Cadeirydd ynghylch tlodi bwyd

(Tudalennau 1 - 6)

3.2 Gohebiaeth gan Lywodraeth Cymru mewn ymateb i adroddiad y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol: "Yn sefydlog ond heb fod yn saff? Dinasyddion yr UE a arhosodd ar ôl Brexit"

(Tudalennau 7 - 14)

3.3 Gohebiaeth gan Grwp Cyllideb Menywod Cymru a Rhwydwaith Cydraddoldeb Merched Cymru i'r Cadeirydd ynghylch Cyllideb Llywodraeth Cymru 2026-2027

(Tudalennau 15 - 16)

3.4 Ymateb Llywodraeth Cymru i adroddiad y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol yn craffu ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2026-27

(Tudalennau 17 - 67)

## 4 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 (vi) i benderfynu gwahardd y cyhoedd am weddill y cyfarfod heddiw ac am cyfarfod cyfan y Pwyllgor ar 2 Chwefror 2026

(15:30)

## Cyfarfod preifat

(15:30-15:45)

## 5 Mynediad at fwyd iach, maethlon a fforddiadwy: trafod y paratoadau ar gyfer sesiynau grwpiau ffocws

(15:30-15:45)

**Huw Irranca-Davies AS/MS**
**Y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig**
**Deputy First Minister and Cabinet Secretary for Climate Change and Rural Affairs**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

**Jane Hutt AS/MS**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyfiawnder Cymdeithasol, Y Trefnydd a'r Prif Chwip**
**Cabinet Secretary for Social Justice, Trefnydd and Chief Whip**

Ein cyf/Our ref JH/PO/25/2026

Jenny Rathbone AS
Cadeirydd y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

20 Ionawr 2026

Annwyl Jenny

Diolch am roi'r cyfle inni ymateb, fel rhan o ymchwiliad y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol i fynediad at fwyd iach, maethlon a fforddiadwy.

Rydym yn cydnabod bod yna rwystrau sylweddol i oresgyn tlodi bwyd mewn ffordd gynaliadwy, ataliol sy'n darparu bwyd iach a maethlon i bawb. Mae costau bwyd cynyddol yn gwneud dewisiadau iach yn llai fforddiadwy i lawer o deuluoedd. Gall mynediad at gynnyrch ffres fod yn gyfyngedig mewn ardaloedd gwledig ac mewn ardaloedd trefol difreintiedig. Gall systemau bwyd fod yn anghyson yn aml, ac nid oes digon yn cael ei wneud i gysylltu cynhyrchwyr lleol yn uniongyrchol â chymunedau. Yn ogystal, oherwydd y bylchau mewn gwybodaeth am fwyd, mae yna ormod o bobl sydd heb y sgiliau a'r hyder i baratoi prydau maethlon. Er gwaethaf yr

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Huw.Irranca-Davies@llyw.cymru
Correspondence.Huw.Irranca-Davies@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

heriau hyn, rydym yn benderfynol o adeiladu system fwyd sy'n gweithio i bawb. Dyna pam ein bod:

- yn ariannu Partneriaethau Bwyd Lleol, gan roi llais i gymunedau wrth lunio systemau bwyd, fel eu bod yn diwallu eu hanghenion ac yn sicrhau bod bwyd iachach yn hygyrch ac yn fforddiadwy
- yn pennu targed i gynyddu'r bwyd Cymreig a gaiff ei gaffael yn y sector cyhoeddus 50% erbyn 2030, gan gryfhau cadwyni cyflenwi lleol a sicrhau bod ysgolion, ysbytai a gwasanaethau cyhoeddus yn gweini prydau maethlon o ffynonellau lleol
- yn ymgorffori gwybodaeth am fwyd yn y system addysg**,** fel bod pob plentyn yn gadael yr ysgol â'r sgiliau i baratoi prydau iach ac yn deall maeth
- yn cefnogi'r gwaith o ehangu prosiectau garddwriaeth fwytadwy a thyfu bwyd yn y gymuned**,** gan leihau'r ddibyniaeth ar fewnforion a chryfhau gwydnwch lleol.

Mae sicrhau bod gan bawb fynediad at fwyd iach, maethlon a fforddiadwy, beth bynnag eu hamgylchiadau, yn hawl sylfaenol ac yn un y mae Llywodraeth Cymru yn ei chymryd yn ddifrifol iawn.  Dyna pam y mae Llywodraeth Cymru, ers 2019, wedi buddsoddi dros £29 miliwn i gefnogi sefydliadau bwyd cymunedol i fynd i'r afael â diffyg diogeledd bwyd a darparu amrywiaeth ehangach o wasanaethau i helpu unigolion ac aelwydydd i wneud y mwyaf o'u hincwm a meithrin gwydnwch ariannol.

Mae cyllid wedi cefnogi banciau bwyd a sefydliadau bwyd cymunedol i oresgyn rhwystrau o ran cael mynediad at gyflenwadau ychwanegol o fwyd o ansawdd da, a storio a dosbarthu'r bwyd hwnnw, gan gynnwys bwyd dros ben da. Mae hefyd wedi darparu cyllid i Gydlynwyr Partneriaethau Bwyd Lleol, sy'n ceisio dod ag aelodau o'r gymuned ynghyd i weithio tuag at system fwyd fwy gwydn, sy'n golygu bod bwyd yn teithio llai o filltiroedd, bod llai o wastraff bwyd a gwell mynediad at fwyd maethlon a fforddiadwy i bawb. Mae'r Partneriaethau Bwyd yn cefnogi amrywiaeth o brosiectau sy'n gysylltiedig â bwyd sydd â'r nod o gynyddu mynediad at gynnyrch a dyfir yn lleol i bawb, yn datblygu gwybodaeth a sgiliau tyfu o fewn y gymuned, yn hwyluso sesiynau sgiliau maeth a choginio, ac yn helpu i leihau'r ôl troed carbon.

Mae ein cyllid Cymorth Bwyd Brys, a roddir i awdurdodau lleol i'w ddosbarthu yn eu hardaloedd, yn gwneud gwahaniaeth gwirioneddol i'r rhai sy'n cael trafferth fforddio cost bwyd.  Mae'n cefnogi pantrïau bwyd a chwmnïau cydweithredol, yn darparu dosbarthiadau coginio a maeth i deuluoedd, ac yn cefnogi prosiectau tyfu cymunedol.

Mae mynd i'r afael â thlodi bwyd yn gysylltiedig â strategaethau ehangach ar leihau tlodi, iechyd ac addysg. Mae ein cyllid yn adlewyrchu hyn ac yn gydnaws â mentrau sy'n cynyddu incwm aelwydydd, lleihau anghydraddoldeb, a chryfhau rhwydweithiau

bwyd lleol. Mae'r dull integredig hwn yn sicrhau bod anghenion brys yn cael eu diwallu ar y naill law, ond hefyd ein bod yn mynd i'r afael â materion strwythurol sy'n gyrru tlodi bwyd, gan helpu teuluoedd i symud o argyfwng i sefydlogrwydd.

Mae Cynllun Cyflawni Pwysau Iach: Cymru Iach 2025-27 yn rhoi pwyslais cryf ar fynediad at fwyd iach, maethlon a fforddiadwy i bawb. Mae'n nodi cyfres o themâu, nodau a chamau gweithredu er mwyn canolbwyntio ar lle y gallwn gydweithio i sicrhau'r newid mwyaf. Nod Cam Gweithredu 9 y cynllun yw cefnogi mentrau pwysau iach sy'n lleihau anghydraddoldebau iechyd ac economaidd. Mae hyn yn cynnwys mentrau fel Prydau Ysgol Am Ddim i Holl Blant Ysgolion Cynradd a'r prydau ar gyfer unigolion penodol mewn ysgolion uwchradd, sy'n golygu bod gan fwy na dwy ran o dair o ddysgwyr Cymru fynediad at bryd ysgol am ddim bob dydd. Nodau'r Cynllun Cyflawni ar gyfer ysgolion a lleoliadau yw:

- bod prydau ysgol yn bodloni gofynion maeth dysgwyr
- bod bwyd a ddarperir ar safle ysgol yn iach fel mater o drefn
- bod plant yn datblygu'r wybodaeth, y sgiliau a'r hyder i gynllunio, tyfu, paratoi a choginio bwyd fforddiadwy ac iachach
- bod plant yn profi amrywiaeth o wahanol fwydydd ac yn deall o ble mae'r bwydydd hynny yn dod
- bod gweithgarwch corfforol yn rhan o fywyd yr ysgol o ddydd i ddydd
- bod cyfleoedd i bob plentyn gyflawni gweithgarwch egnïol yn ystod y diwrnod ysgol
- bod cyfle i bob plentyn roi cynnig ar a phrofi amrywiaeth o opsiynau chwaraeon a hamdden egnïol a'u bod yn cael cymorth i ddod o hyd i'r rhai y maent yn eu mwynhau
- bod plant yn hyddysg ym maes llythrennedd corfforol

Ar 17 Rhagfyr 2025, gosodwyd Rheoliadau Bwyta'n Iach mewn Ysgolion (Gofynion a Safonau Maeth) (Ysgolion Cynradd a Gynhelir) (Cymru) 2025 gerbron y Senedd. Mae'r Rheoliadau newydd hyn yn cryfhau'r safonau ar gyfer bwyd a diod a ddarperir mewn ysgolion meithrin a chynradd a gynhelir ledled Cymru, gan hwyluso mynediad at ddewisiadau iachach a chytbwys i ddysgwyr, a sicrhau eu bod yn fwy cydnaws â'r canllawiau maeth diweddaraf. Daw'r rhain i rym ar 31 Hydref 2026.

Yn sgil yr ymrwymiad i Brydau Ysgol Am Ddim i Holl Blant Ysgolion Cynradd, mae ychydig o dan 174,000 o ddisgyblion newydd ddod yn gymwys i gael pryd ysgol am ddim, ac mae dros 57 miliwn o brydau ysgol am ddim ychwanegol wedi'u gweini ers cyflwyno'r drefn ym mis Medi 2022. Mae'r ymyriad trawsnewidiol hwn yn helpu i gefnogi teuluoedd Cymru gyda chostau byw, ac i gadw arian y mae ei angen yn fawr yn eu pocedi. Gan gydnabod y flaenoriaeth yr ydym yn ei rhoi i ddarparu cynnig o safon yn wyneb costau cynyddol, ar 10 Rhagfyr 2025 cyhoeddodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg gynnydd i'r gyfradd a delir fesul Pryd Ysgol Am Ddim i Holl Blant Ysgolion Cynradd, o £3.20 i £3.40. Bydd hyn yn diogelu parhad y ddarpariaeth

ac yn helpu i sicrhau bod ein dysgwyr yn cael y dechrau gorau posibl. Yn ogystal, er mwyn sicrhau effaith fwyaf bosibl ein cynnig i blant ysgolion cynradd, rydym yn ei werthuso'n annibynnol fel y gellir dysgu gwersi a gwella'r ddarpariaeth yn barhaus.

Mae Rhaglen Gwella Gwyliau’r Haf, "Bwyd a Hwyl", yn gynllun ysgolion sy’n darparu prydau iach, addysg ar fwyd a maeth, gweithgarwch corfforol a sesiynau cyfoethogi i ddysgwyr mewn ardaloedd sydd dan anfantais economaidd-gymdeithasol am o leiaf 12 diwrnod yn ystod gwyliau haf yr ysgol. Gall plant a'u teuluoedd gymryd rhan hefyd mewn gweithgarwch corfforol ar y cyd a dysgu am fanteision bwyd iach, gan fabwysiadu dulliau Ysgolion Bro.

Nod y Strategaeth Bwyd Cymunedol, a gyhoeddwyd ym mis Ebrill 2025, yw annog yr arfer o gynhyrchu a chyflenwi bwyd fforddiadwy, cynaliadwy o ffynonellau lleol yng Nghymru. Cynhaliwyd cyfarfod agoriadol aelodau craidd Grŵp Cynghori'r Gweinidog ar 3 Rhagfyr 2025. Grŵp yw hwn sydd â'r arbenigedd perthnasol i lywio'r camau a gymerir i gyflawni amcanion y strategaeth, a mesur ei chynnydd a'i llwyddiant.

Mae'r Strategaeth Bwyd Cymunedol yn canolbwyntio ar fywiogi a chefnogi mentrau bwyd llawr gwlad, a chynyddu'r ffocws ar faterion bwyd wrth lunio polisïau ac wrth gynllunio a darparu gwasanaethau ar raddfa gymunedol. Wrth weithio tuag at y nod hwn, mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo mwy na £2 miliwn yn 2025-2026, i ddatblygu ymhellach y rhwydwaith o Bartneriaethau Bwyd Lleol ledled Cymru ac i ariannu swyddi Cydlynwyr Partneriaethau Bwyd Lleol tan fis Mawrth 2028. Pwrpas y buddsoddiad hwn yw cefnogi datblygiad a hyfywedd hirdymor mentrau bwyd lleol drwy feithrin cysylltiad cryf rhyngddynt a'r cymunedau y maent yn eu gwasanaethu. Mae amcanion cyllid grant Partneriaethau Bwyd Lleol yn cynnwys rhoi sylw i'r bwyd iach a maethlon sydd ar gael i ddinasyddion y gymuned leol - gan gynnwys y rhai sy'n profi tlodi ac sydd â nodweddion gwarchodedig -, ei fforddiadwyedd, y mynediad ato, a'r defnydd a wneir ohono.

Mae'r Strategaeth yn sail i'r camau gweithredu yng nghynllun cyflawni Pwysau Iach: Cymru Iach, yn enwedig mewn perthynas â gwella'r ddarpariaeth o fwyd iach o ffynonellau lleol a mynediad ato.

Ledled Cymru mae nifer o enghreifftiau o gymryd camau i sicrhau bod bwyd iach, maethlon a fforddiadwy ar gael i bawb.  Ym Mlaenau Gwent, mae'r bartneriaeth fwyd wedi cyflwyno cynllun talebau ffrwythau a llysiau ar draws pum deg dau o aelwydydd, lle rhoddir taleb gwerth £10 i'w defnyddio mewn siop fwyd annibynnol yng Nglynebwy.  Mae atgyfeiriadau i'r cynllun wedi dod i law gan Dechrau'n Deg, gan atgyfnerthu'r neges o roi'r dechrau gorau mewn bywyd i bob plentyn. Defnyddiwyd 88% o'r talebau yn ystod y mis cyntaf.

Mae prosiect peilot yn Aberhonddu a'r Drenewydd yn darparu bocsys llysiau drwy gymhorthdal i deuluoedd, a dosbarthiadau coginio misol.  Yn Sir Gaerfyrddin, mae'r bartneriaeth fwyd wedi bod yn gweithio gyda phlant i ailgynllunio bwydlen ysgolion, sy'n cynnwys trefnu i'r disgyblion ymweld â ffermydd i ddeall mwy am daith bwyd.

Mae cynllun 'Cerdyn Planed' Bwyd Caerdydd yn cynnig prisiau gostyngol ar gynnyrch organig ym Marchnadoedd Ffermwyr y ddinas, a'i nod yw mynd i'r afael â phroblem diffyg diogeledd bwyd a gwella mynediad at opsiynau bwyd iach, cynaliadwy i bobl sydd ar incwm isel.

Rydym yn cefnogi cynllun Llysiau o Gymru ar gyfer Ysgolion sy'n cynyddu nifer y llysiau y mae ein plant yn eu bwyta yn eu ciniawau ysgol, yn gwella eu deiet heddiw, ac yn gwella eu gwybodaeth am fwyd i'r dyfodol, gan gefnogi ffermwyr a thyfwyr lleol ar yr un pryd.  Dyma rai enghreifftiau o fentrau sy'n mynd i'r afael â thlodi bwyd drwy gefnogi darparu bwyd iach a maethlon.  Mae'r Partneriaethau Bwyd Lleol yn cyfrannu'n fawr at y gwaith hwn ac yn cynnal cyfarfodydd rhwydwaith rheolaidd lle rhennir arferion da.  Yn nes ymlaen y mis hwn, byddaf yn cwrdd ag arweinwyr Cabinetau Awdurdodau Lleol sy'n gyfrifol am Bartneriaethau Bwyd Lleol, ac edrychaf ymlaen at rannu gyda nhw rai o'r arferion da sydd ar waith ledled Cymru.

Gyda'i gilydd, mae'r mesurau hyn yn cynrychioli awydd i symud oddi wrth ymatebion brys tymor byr tuag at gamau atal tymor hir sy'n mynd i'r afael â'r achosion gwaelodol yn ogystal â'r anghenion sydd angen sylw ar unwaith. Drwy weithio mewn partneriaeth â chymunedau, cynhyrchwyr a gwasanaethau cyhoeddus, gallwn oresgyn y rhwystrau i dlodi bwyd ac adeiladu dyfodol iachach, mwy cynaliadwy i Gymru.

Yn gywir

**Huw Irranca-Davies AS/MS**
Y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd
a Materion Gwledig
Deputy First Minister and Cabinet Secretary for Climate Change and Rural Affairs

**Jane Hutt AS/MS**
Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyfiawnder Cymdeithasol, y Trefnydd a'r Prif Chwip
Cabinet Secretary for Social Justice, Trefnydd and Chief Whip

Eitem 3.2

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Ymateb Llywodraeth Cymru
Sefydlog ond heb fod yn saff? Dinasyddion yr UE a arhosodd ar ôl Brexit

Ionawr 2026

Sefydlwyd y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol ym mis Mehefin 2021 ac mae'n parhau i fonitro gweithrediad y Cynllun Preswylio'n Sefydlog i Breswylwyr yr UE yng Nghymru. Mae wedi cyhoeddi wyth adroddiad monitro a dau adroddiad blynyddol hyd yma.

Mae'r adroddiad diweddaraf a gyhoeddwyd gan y Pwyllgor ym mis Tachwedd 2025 yn codi pryderon am ddiogelwch hirdymor hawliau dinasyddion yr UE ac yn tynnu sylw at risgiau, bylchau mewn data, ac annigonolrwydd o ran y polisi yng nghynllun Llywodraeth y DU. Yn ôl yr adroddiad, er bod llawer o ddinasyddion yr UE yng Nghymru wedi cael eu statws, gallai cymhlethdod systemig, diffyg ymwybyddiaeth a data annigonol greu risgiau o anghyfiawnder yn y dyfodol.

Mae'r ddogfen hon yn nodi sut mae Llywodraeth Cymru wedi cefnogi'r gwaith o gyflawni'r Cynllun Preswylio'n Sefydlog i Ddinasyddion yr UE hyd yma, gan ymateb i argymhellion y Pwyllgor sydd i'w cyflwyno i ddarpar lywodraeth i Gymru.

# Cynnwys

1. **Llywodraeth Cymru a chyflawni Cynllun Preswylio'n Sefydlog i Ddinasyddion yr UE yng Nghymru** ........ 3

2. **Argymhelliad 1** ........ 5

3. **Argymhelliad 2** ........ 6

4. **Argymhelliad 3** ........ 7

5. **Argymhelliad 4** ........ 8

# 1. Llywodraeth Cymru a chyflawni’r Cynllun Preswylio'n Sefydlog i Ddinasyddion yr UE yng Nghymru

Ers mis Mehefin 2019, mae Llywodraeth Cymru wedi ariannu cyfres o gymorth am ddim i ddinasyddion o’r UE, yr Ardal Economaidd Ewropeaidd a’r Swistir sy’n dymuno aros yng Nghymru. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo o hyd i sicrhau bod yr holl ddinasyddion Ewropeaidd cymwys sydd wedi dewis gwneud Cymru yn gartref iddynt yn cael eu cefnogi i gael eu statws a chael eu cydnabod fel aelodau gwerthfawr o'n cymunedau.

Ers dechrau Cynllun Preswylio'n Sefydlog i Ddinasyddion yr UE Llywodraeth y DU, mae dros 130,932 o geisiadau wedi'u gwneud, a'u cwblhau, gan ddinasyddion yr UE sy'n preswylio yng Nghymru, gan roi statws mewnfudo cyfreithlon i'r dinasyddion hynny. Mae llawer o'r unigolion hynny wedi cael gafael ar ryw fath o gymorth wedi'i ariannu gan Lywodraeth Cymru er mwyn cwblhau eu ceisiadau a manteisio ar eu hawliau.

Mae Llywodraeth Cymru yn parhau i ymgysylltu'n rheolaidd â Fforwm Hawliau Dinasyddion yr UE, gan ddarparu fforwm i randdeiliaid yng Nghymru ar gyfer codi a thrafod materion. Mae'r Fforwm yn allweddol o ran cryfhau deialog gytbwys ar gyflawni'r Cynllun Preswylio'n Sefydlog i Ddinasyddion yr UE yng Nghymru a sut mae dinasyddion yr UE yn integreiddio i fywyd yng Nghymru.

Hyd yma, mae cymorth a ariennir gan Lywodraeth Cymru wedi galluogi dinasyddion yr UE ac aelodau o'u teuluoedd i gael gafael ar gymorth gyda cheisiadau, cael help gydag ymholiadau cymhwystra sylfaenol, derbyn cyngor ar faterion lles cymdeithasol a hawliau yn y gweithle, a chael cyngor mewnfudo arbenigol am ddim drwy bartneriaid a ariennir. Mae Settled, un o'r partneriaid a ariennir gan Lywodraeth Cymru, yn parhau i ddarparu cymorth gyda cheisiadau hwyr, cymhleth yn aml, yn ogystal â materion o ran manteisio ar hawliau.

Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i gefnogi dinasyddion yr UE yng Nghymru a bydd yn ymdrechu i sicrhau bod cymorth a chyngor am ddim yn parhau i fod ar gael cyn belled â bod tystiolaeth o’r angen.

Heb os, mae'n bosibl bod nifer o ddinasyddion yr UE yng Nghymru o hyd sydd heb eto wneud cais ar gyfer y Cynllun Preswylio'n Sefydlog i Ddinasyddion yr UE a/neu y mae angen cymorth arnynt i uwchraddio eu statws. Mae Llywodraeth Cymru yn parhau i ariannu cymorth i'r unigolion hynny. Rydym yn croesawu'r rôl y mae ein rhanddeiliaid yn parhau i'w chwarae wrth sicrhau bod y rhai sy'n

wynebu'r rhwystrau mwyaf yn ein cymunedau yn gallu cael gafael ar y cymorth sydd ei angen arnynt.

Rydym yn falch o fod wedi gallu ymestyn ein cyllid i TGP Cymru yn ddiweddar i ddarparu gwaith allgymorth penodol ac wedi'i dargedu yn y gymuned Roma i sicrhau nad oes unrhyw ddinesydd yn cael ei adael ar ôl. Nodwn gyfeiriad y Pwyllgor at y grŵp hwn mewn adroddiadau blaenorol.

Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn croesawu darpariaethau Llywodraeth y DU a nodir yn Neddf Diogelwch y Ffin, Lloches a Mewnfudo (2025) sy'n cyflwyno amddiffyniadau cyfreithiol penodol ar gyfer dinasyddion yr UE/yr Ardal Economaidd Ewropeaidd/y Swistir ac aelodau o'u teuluoedd y mae ganddynt ganiatâd o dan y Cynllun Preswylio'n Sefydlog i Ddinasyddion yr UE.

Hoffwn dynnu sylw'r Pwyllgor at y datganiad ym mharagraff 19 (tudalen 4) ynghylch "cynlluniau i adolygu deiliaid statws sefydlog nad ydynt yn bodloni'r gofynion mwyach". Mae Llywodraeth Cymru yn deall nad oes gan Lywodraeth y DU unrhyw gynlluniau i adolygu deiliaid statws *sefydlog*, ac mae'r Swyddfa Gartref wedi gwneud hyn yn glir. Dim ond yn sgil troseddu difrifol neu pan fo statws sefydlog wedi'i gael drwy dwyll y gall y Swyddfa Gartref gael gwared â statws sefydlog. Mae'n bosibl bod y Pwyllgor wedi golygu deiliaid statws *cyn-sefydlog* yma.

Hoffwn ddiolch i aelodau'r Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol am eu hadroddiad diweddar ar y Cynllun Preswylio'n Sefydlog i Ddinasyddion yr UE. Er bod y rhain yn argymhellion ar gyfer llywodraeth nesaf Cymru, rwyf wedi nodi safbwynt y Llywodraeth hon.

Jane Hutt

Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyfiawnder Cymdeithasol, y Trefnydd a'r Prif Chwip

## 2. Argymhelliad 1

Mae'r Pwyllgor yn argymell:

Dylid cydnabod natur hirdymor y Cynllun Preswylio’n Sefydlog i Ddinasyddion yr UE a dylai fod yn ganolog i gynllunio ar lefel llywodraeth y DU a llywodraeth Cymru os am osgoi ail Windrush.

Ymateb: Derbyn

Dros y misoedd diwethaf mae Llywodraeth Cymru wedi ymgysylltu'n helaeth â Llywodraeth y DU mewn perthynas â datblygu Deddf Diogelwch y Ffin, Lloches a Mewnfudo (2025). Cefnogodd Llywodraeth Cymru y gwaith o ddatblygu'r darpariaethau a nodir yn y Bil hwnnw sy'n creu amddiffyniadau cyfreithiol i ddinasyddion yr UE/yr Ardal Economaidd Ewropeaidd/y Swistir ac aelodau o'u teuluoedd sydd â chaniatâd o dan y Cynllun Preswylio'n Sefydlog i Ddinasyddion yr UE. Mae hyn yn golygu y bydd y Bil yn parhau i ddiogelu hawliau deiliaid statws o dan y Cynllun Preswylio'n Sefydlog i Ddinasyddion yr UE p'un a oeddent yn preswylio yn y DU (neu Ynysoedd y Sianel) ai peidio ar ddiwedd 2020.

Mae Llywodraeth Cymru yn parhau i ymgysylltu â Llywodraeth y DU ynglŷn â chymorth yn y dyfodol i'r Cynllun Preswylio'n Sefydlog i Ddinasyddion yr UE. Mae sicrhau y gall dinasyddion yr UE barhau i fanteisio ar yr hawliau a'r gwasanaethau cyhoeddus a roddir iddynt yn rhan ganolog o'r trafodaethau hynny o hyd.

# 3. Argymhelliad 2

Mae'r Pwyllgor yn argymell:

Rhaid i Lywodraeth Cymru yn y dyfodol dargedu cefnogaeth at grwpiau agored i niwed a'r rhai sy'n debygol o fod yn anymwybodol o'r angen i wneud cais.

Ymateb: Derbyn

Ers lansio’r Cynllun Preswylio'n Sefydlog i Ddinasyddion yr UE, mae Llywodraeth Cymru wedi ariannu a gweithio gyda phartneriaid i sicrhau bod dinasyddion yr UE a allai wynebu rhwystrau rhag cael gafael ar wasanaethau cymorth, yn cael eu cefnogi drwy gymorth ac allgymorth wedi'i dargedu. Rydym yn gweithio'n agos gyda'n rhanddeiliaid i gael yr wybodaeth ddiweddaraf am yr heriau sy'n wynebu pobl o fewn grwpiau a ymyleiddiwyd ac nad ydynt yn cael eu cynrychioli'n ddigonol.

Yn 2025-2026, mae Llywodraeth Cymru wedi dyfarnu cyllid grant i TGP Cymru i gyflawni gwaith allgymorth penodol ac wedi'i dargedu yn y gymuned Roma. Mae hwn wedi'i ddyfarnu mewn ymateb i adborth gan Fforwm Hawliau Dinasyddion yr UE ac mae'n mynd i'r afael â'r argymhellion a nodir yn yr adroddiad diwethaf a gyhoeddwyd gan y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol.

Mae Fforwm Hawliau Dinasyddion yr UE Llywodraeth Cymru yn parhau i weithredu fel cyfrwng ar gyfer gweithgarwch cydweithredol sy'n canolbwyntio ar gymorth, codi ymwybyddiaeth a chyfeirio, yn enwedig o fewn cymunedau a ymyleiddiwyd, sy'n aml yn wynebu rhwystrau sylweddol i gael cymorth.

# 4. Argymhelliad 3

Mae'r Pwyllgor yn argymell: Rhaid i Lywodraethau'r DU a Chymru gydweithio. Fel isafswm, dylai Llywodraeth Cymru gael mynediad at ddata sy'n benodol i Gymru a chael ei chynnwys yn gynnar mewn newidiadau i'r Cynllun.

Ymateb: Derbyn

Mae Llywodraeth Cymru wedi galw ers tro am well data ar lefel ddatganoledig ar bob agwedd ar fewnfudo i gefnogi gwell llunio polisi, cynllunio a chynlluniau wrth gefn lle bo angen.

Mae ystadegau'r Cynllun Preswylio'n Sefydlog i Ddinasyddion yr UE yn galluogi Llywodraeth Cymru i allu parhau i fonitro nifer y ceisiadau a gaiff eu gwneud a'u cwblhau gan ddinasyddion yr UE sy'n byw yng Nghymru.

Mae Llywodraeth Cymru yn parhau i ymgysylltu â Llywodraeth y DU ynglŷn â'r Cynllun Preswylio'n Sefydlog i Ddinasyddion yr UE a'r newidiadau polisi cysylltiedig. Hyd yma mae'r trafodaethau hynny wedi bod yn gadarnhaol ac rydym wedi gweld nifer o newidiadau buddiol o ganlyniad, gan gynnwys awtomateiddio statws sefydlog.

# 5. Argymhelliad 4

Mae'r Pwyllgor yn argymell: Rhaid i Lywodraethau Cymru yn y dyfodol weithio gyda dinasyddion a phartneriaid yr UE, gan gynnwys awdurdodau cyhoeddus, Settled, the3million a'r Awdurdod Monitro Annibynnol, i rannu arbenigedd a pharhau i gydymffurfio â'r cytundebau gwahanu Brexit.

Ymateb: Derbyn

Mae Fforwm Hawliau Dinasyddion yr UE Llywodraeth Cymru yn rhoi cyfle i bartneriaid a chynrychiolwyr dinasyddion yr UE yng Nghymru rannu arbenigedd, yn ogystal â chodi materion a'u trafod.

Mae gan y Fforwm ystod eang o gynrychiolaeth ac mae'n hwyluso rhannu gwybodaeth mewn perthynas â gweithredu Cytundeb y Ddeddf Ymadael. Drwy'r Fforwm hwn gall partneriaid rannu pryderon a phrofiadau, y gall Llywodraeth Cymru wedyn eu trosglwyddo i Lywodraeth y DU i'w hystyried pan fo angen a lle cytunir ar hynny.

Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn parhau i gynnal perthynas ragweithiol a chadarnhaol â'r Awdurdod Monitro Annibynnol i sicrhau bod pob corff cyhoeddus yn cynnal ei rwymedigaethau statudol i ddinasyddion yr UE yng Nghymru, yn unol â'r cytundebau gwahanu Brexit.

**Welsh Government Final Budget 2026-27: A budget that doesn't acknowledge women**

*WWBG and WEN Wales respond to yesterday's Budget announcement by the Welsh Government.*

Yesterday, the Welsh Government published its Final Budget 2026-27, the last Budget of the Sixth Senedd. Following the UK Autumn Budget and a budget agreement with Plaid Cymru, the Final Budget allocated £27.5 billion – £400million of new investment since the Draft Budget in November – to support 'public services, people, communities and businesses in Wales.' Alarmingly, the Final Budget and its accompanying documentation made little to no mention of women in Wales. In a country where women make up 51.1% of the population, the failure to use a gender lens seriously compromises the Welsh Governments ability to budget responsibly for the people of Wales.

As discussed in our Budget briefing, we were pleased to see additional investment in Wales' public services following the budget agreement between Welsh Labour and Plaid Cymru on 9 December 2025. The £180m allocated to NHS can help support women as majority service users and employees. Furthermore, the additional £112.8million invested in Housing and Local Government will provide short-term protection for vital public services. However, as acknowledged in the Strategic Integrated Impact Assessment (SIIA) published alongside the Budget, this uplift is unlikely to meet the cost and demand pressures facing Welsh local authorities. This may result in reductions to social care or increased service costs, both of which impact women in Wales disproportionately. In this context, the lack of targeted funding to improve the poor pay, working terms and conditions in social care will continue to exacerbate the recruitment and retention crisis within the sector. This omission both undermines the announced support for the NHS and fails to support the women who represent 78% of social care employees and majority service users in Wales.

Unfortunately, the failure to adequately support women is a key pattern within this year's Final Budget. Despite inflationary uplifts for each department, the allocations of yesterday's Budget provide little relief for women in Wales who continue to face an unequal economic position and disproportionate share of caring responsibilities. For example, even with inflationary uplifts, the restated funding for childcare is wholly insufficient to address the structural issues with Wales' childcare system which remains unaffordable, inaccessible and disjointed. High costs and gaps in childcare provision continue to represent a key barrier to gender equality by pushing parents, particularly mothers, out of work. The failure to address these issues in the Final Budget is highly regrettable, and will serve to further entrench gender inequality in Wales.

Similarly, while the restated funding for Violence against Women, Domestic Abuse and Sexual Violence (VAWDASV) in the Draft Budget was positive, the complete

lack of recognition and additional support for the Welsh third sector in this year's Final Budget is deeply concerning. When public services are under pressure, vulnerable individuals often turn to third sector organisations in Wales for vital support. However, the third sector – especially the Welsh women's sector – has faced successive financial crises alongside increased demand, leading to organisational closures and service cuts. In this context, it is disappointing that the Social Justice portfolio received the smallest uplift of all departments in the Welsh Government's Draft Budget and Final Budgets this year.

We welcome the new collaborative approach taken to the SIIA. As with the Interim Assessment published alongside the Draft Budget, the Final Assessment represented an improvement in budget transparency and clarification of the SIIA process. We were also pleased to see the inclusion of case studies, which provide deeper insight into how evidence has informed decision making, and how those decisions impact certain groups. The identification of negative impacts and efforts to mitigate such impacts were also welcome additions. However, we must express our dismay at the distinct lack of gendered impact assessment within the final SIIA, which failed to acknowledge the impact of any decisions on women, including in key gendered areas such as transport, health and social care and apprenticeships.

The lack of a gender lens in yesterday's Budget and accompanying documentation is highly concerning. Without meaningfully considering the needs and experiences of over half of the population, the claim that the Final Budget adequately delivers for the people of Wales is hard to justify. This failure further underscores the vital need to roll out gender budgeting across the Welsh Government. Only by doing so can we ensure that that decision-makers consider and respond to the needs of all groups of people in Wales and provide the support that women in Wales need and deserve.

**Hannah Griffiths** (she/her)

*Wales Women's Budget Group Coordinator and Policy Assistant/Cydlynydd Grŵp Cyllideb Menywod Cymru a Chynorthwyydd Polisi*

Eitem 3.4

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Ymateb ysgrifenedig gan Lywodraeth Cymru i adroddiad y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol ar Gyllideb Ddrafft 2026-27

## Crynodeb

Mae'r adroddiad hwn yn nodi ymateb Llywodraeth Cymru i Adroddiad y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol wrth Graffu ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2026-27.

Mae Llywodraeth Cymru wedi ystyried adroddiad y Pwyllgor ac mae'n ymateb i'r wyth argymhelliad a'r pum casgliad.

# Cynnwys

1. Cyflwyniad ..... 3
2. Argymhelliad 1 ..... 4
3. Argymhelliad 2 ..... 6
4. Argymhelliad 3 ..... 7
5. Argymhelliad 4 ..... 9
6. Casgliad 1 ..... 11
7. Casgliad 2 ..... 13
8. Casgliad 3 ..... 15
9. Casgliad 4 ..... 16
10. Casgliad 5 ..... 18
11. Casgliad 6 ..... 20
12. Casgliad 7 ..... 22
13. Casgliad 8 ..... 24

# 1. Cyflwyniad

Cyhoeddwyd Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2026-27 ar 3 Tachwedd 2025. Roedd yn nodi'r cynlluniau gwariant refeniw a chyfalaf ar gyfer y cyfnod rhwng mis Ebrill 2026 a mis Mawrth 2027.

Fel rhan o'r broses gyllidebol, darparodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyfiawnder Cymdeithasol, y Trefnydd a'r Prif Chwip dystiolaeth ysgrifenedig i lywio'r broses o graffu ar Gyllideb Ddrafft 2026-27. Darparodd y papur hwn wybodaeth i'r Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol ar gyllidebau yn y Prif Grŵp Gwariant ar gyfer Cyfiawnder Cymdeithasol.

Cynhaliwyd sesiwn tystiolaeth lafar ar 24 Tachwedd lle cafodd y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol dystiolaeth gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyfiawnder Cymdeithasol, y Trefnydd a'r Prif Chwip.

Cyhoeddodd y Pwyllgor ei adroddiad, Craffu ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2026-27, ar 16 Rhagfyr. Diolch i'r Pwyllgor am yr adroddiad.

Mae Llywodraeth Cymru wedi ystyried adroddiad y Pwyllgor ac mae'n ymateb i'r pedwar argymhelliad a'r wyth casgliad. Ar gyfer pob argymhelliad, rydym wedi darparu ymateb ysgrifenedig ac wedi penderfynu naill ai ei 'dderbyn', ei 'dderbyn mewn egwyddor' neu ei 'wrthod'.

# 2. Argymhelliad 1

Wrth ymateb i ddiwedd y cap dau blentyn, rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn ystyried ei hymateb i ddiwedd y cap dau blentyn ac unrhyw oblygiadau y gallai hyn eu cael ar ei dull o fynd i'r afael â thlodi plant, gan gynnwys y Strategaeth. Dylai hyn gynnwys:

Asesu a oes angen unrhyw newidiadau i'r polisi presennol i sicrhau eu bod yn cyd-fynd â'r newidiadau mewn budd-daliadau a wnaed gan Lywodraeth y DU.

Blaenoriaethu arian sydd ar gael ar gyfer buddsoddi mewn rhaglenni blaenoriaeth lle mae tystiolaeth glir eu bod yn effeithiol wrth leihau tlodi plant fel y nodir yn argymhelliad 3 o'n hadroddiad ar dlodi plant.

Dwyn ymlaen gynigion manwl am unrhyw gamau pellach y bydd yn eu cymryd i leddfu tlodi plant er mwyn adeiladu ar y cyfle a ddarparwyd gan ddiddymu'r cap dau blentyn.

Ymateb: Derbyn

Rydym yn adolygu ein dull gweithredu mewn perthynas â threchu tlodi ym mhob rhan o'r llywodraeth yn rheolaidd drwy'r prosesau datblygu polisïau a chraffu, gan sicrhau bod ein dulliau ysgogi ar gyfer trechu tlodi yn cael cymaint o effaith â phosibl, o fewn cyd-destun polisi ehangach y DU. Byddwn yn parhau i ymgysylltu â Llywodraeth y DU i roi Strategaeth Tlodi Plant y DU ar waith ac i ystyried ei heffeithiau yma yng Nghymru.

Mae Strategaeth Tlodi Plant Cymru 2024 yn nodi sut y bydd Llywodraeth Cymru yn canolbwyntio ar feysydd i leddfu tlodi plant. Yn ddiweddar, amlinellodd Adroddiad Cynnydd 2025 ein Strategaeth Tlodi Plant sut rydym wedi llwyddo i drechu tlodi yn ystod y 3 blynedd diwethaf, gan atgyfnerthu ac egluro sut yr aethom ati i gyflawni amcanion y strategaeth gyffredinol. Cyfeiriodd yr adroddiad

hefyd at y buddsoddiad trawslywodraeth sylweddol mewn polisïau a chamau gweithredu sy'n cefnogi ein huchelgais cyffredinol i ddileu tlodi plant.

Datblygwyd amcanion y Strategaeth drwy ymgysylltu â mwy na 3000 o bobl, a nododd pa gymorth a chamau gweithredu oedd yn bwysig iddynt. Gan ddefnyddio'r adborth hwn, nod y Strategaeth yw darparu cyfeiriad a ffocws gweithredu ar gyfer y degawd nesaf, gan gefnogi polisïau datblygol y Senedd a Llywodraeth y DU.

# 3. Argymhelliad 2

Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn cynyddu lefel y buddsoddiad ar gyfer y Rhaglen Cartrefi Clyd, ac yn blaenoriaethu buddsoddiad mewn mesurau i wella effeithlonrwydd tanwydd cartrefi a mynd i'r afael â thlodi tanwydd. Dylai hyn hefyd fod yn flaenoriaeth ar gyfer y £120 miliwn o gyllid cyfalaf sydd ar gael i Lywodraeth Cymru ei ddyrannu ar ôl yr etholiad nesaf.

Ymateb: Derbyn mewn Egwyddor

Cynyddwyd y dyraniad i'r Rhaglen Cartrefi Clyd 2% yng Nghyllideb Ddrafft 2026-27. Er bod rhai heriau o hyd o ran adnoddau contractwyr, rydym yn parhau i ystyried sut y gellid rhoi cynllun ar sail ardaloedd ar waith. Pe bai'r gwaith archwiliadol hwn yn dangos ei bod yn werth ystyried cynlluniau ar sail ardaloedd, byddai angen cyllid ychwanegol i lansio cynllun.

Mae'r cyhoeddiad cyllidebol a wnaed ym mis Tachwedd 2025 i gau cynllun ECO y DU yn golygu nad oes mesurau effeithlonrwydd ynni ychwanegol ar gael i ddeiliaid tai yng Nghymru. Rydym yn croesawu cyhoeddi Cynllun Cartrefi Clyd Llywodraeth y DU a bydd swyddogion yn gweithio gyda hi i ystyried y goblygiadau i Gymru yn llawn ac i ddatblygu ymyriadau ar gyfer y dyfodol. Mae newidiadau i gyllid yn Lloegr ar raglenni sydd wedi'u datganoli yng Nghymru yn arwain at newidiadau i'n grant bloc drwy fformiwla Barnett. Fodd bynnag, nid yw'r newidiadau hynny yn pennu ar beth y dylai'r grant bloc gael ei wario. Gweinidogion Cymru, gyda chymeradwyaeth y Senedd, fydd yn penderfynu sut i ddyrannu cyllideb Llywodraeth Cymru, sy'n cynnwys cyllid o'r grant bloc, trethi datganoledig a benthyciadau cyfalaf. Os bydd dadl dros ddefnyddio'r cyllid canlyniadol at ddibenion tebyg, bydd Gweinidogion Cymru yn ei ddefnyddio yn unol â'u blaenoriaethau fel rhan o'r broses gyllidebu briodol.

# 4. Argymhelliad 3

Rydym yn croesawu ymdrechion i weithredu cam 1 o'r gwaith hwyluso budd-daliadau yng Nghymru, ond rydym yn pryderu nad yw rhai awdurdodau lleol yn gwneud cynnydd fel y gobeithiwyd. Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn darparu manylion am gynnydd pob awdurdod lleol wrth weithredu cam 1, erbyn mis Chwefror 2026, ac yn amlinellu sut y mae'n gweithio gyda'r awdurdodau lleol sy'n cael trafferth i gyflawni hyn erbyn mis Ebrill 2026.

Ymateb: Derbyn

Croesawaf y ffaith bod y Pwyllgor yn cydnabod y gwaith a wnaed gan Lywodraeth Cymru, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC) ac awdurdodau lleol i weithredu Cam Un o'r prosiect er mwyn gwneud budd-daliadau yng Nghymru yn fwy hygyrch.

Gan weithio'n agos gyda CLlLC a Grŵp Uwch-swyddogion Cyfrifol Awdurdodau Lleol, rydym yn sicrhau bod awdurdodau yn cael y cymorth sydd ei angen arnynt. Gall hyn fod yn wahanol i bob awdurdod lleol gan ddibynnu sut mae'n cyflwyno ei fudd-daliadau a'r gallu i roi newidiadau ar waith.

Mae'r cymorth hwn yn cynnwys rhoi cyllid grant i awdurdodau lleol a CLlLC er mwyn iddynt atgyfnerthu eu gallu i ymgymryd â gweithgareddau Cam Un; cyllid i'r Ganolfan Gwasanaethau Cyhoeddus Digidol ddatblygu rhaglen integredig ar gyfer budd-daliadau Cam Un (sy'n destun profion cysyniadol gydag awdurdodau penodol ar hyn o bryd); a chydweithio â'r Grŵp Uwch-swyddogion Cyfrifol i nodi materion llywodraethu data a rhannu data hirsefydledig sydd wedi atal budd-daliadau Cam Un rhag gallu cael eu gweinyddu'n hwylus a, lle y bo'n bosibl, ymdrin â nhw.

Mae pob Awdurdod Lleol yn gwneud cynnydd clir wrth roi camau gweithredu Cam Un y Grŵp Llywio ar gyfer Hwyluso Budd-daliadau yng Nghymru ar waith. Wrth feithrin dealltwriaeth o'r prosesau presennol a'r rhwystrau o ran hwyluso budd-daliadau yng Nghymru, rydym wedi dangos bod cyfleoedd i hwyluso'r broses ymhellach ac y gellir gwneud hynny. Wrth nodi, datblygu a rhannu arferion gorau, yn enwedig o ran cofnodi data a rhannu data, rydym yn dangos sut y gellir rhoi dull gweithredu mwy hwylus ar waith.

Byddwn yn parhau i helpu llywodraeth leol i ymateb i waith y Grŵp Llywio a gwneud y newidiadau sydd eu hangen i gyflawni ymrwymiadau Siarter Budd-daliadau Cymru a map llwybr Cam Un.

# 5. Argymhelliad 4

Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn rhoi manylion i ni am y cyllid penodol a ddyrannwyd i gefnogi'r gwaith o gyflawni cynlluniau gweithredu sy'n gysylltiedig â chydraddoldeb a manylion unrhyw newidiadau i'r dyraniadau gwariant, a hynny cyn y ddadl ar y Gyllideb Derfynol sydd wedi'i threfnu ar gyfer 26 Ionawr 2026.

Ymateb: Derbyn mewn Egwyddor

Gallwn ddarparu cyllidebau yn erbyn ein cynlluniau gweithredu sy'n gysylltiedig â chydraddoldeb ar gyfer y gwariant sy'n gysylltiedig â Llinell Wariant yn y Gyllideb Cydraddoldebau a Hawliau Dynol. Yn ymarferol, dim ond cyfran gyfyngedig o gyfanswm y buddsoddiad sy'n gysylltiedig â rhoi'r camau gweithredu yn y cynlluniau hyn ar waith y mae'r cyllidebau hyn yn ei hadlewyrchu, a hynny am fod y camau gweithredu hyn wedi'u prif-ffrydio drwy bob rhan o Lywodraeth Cymru ac na ellir eu gwahanu.

Mewn llawer o achosion, caiff y camau gweithredu yn y cynlluniau eu rhoi ar waith yn sgil newidiadau i'r broses sy'n pennu'n union sut y caiff gwasanaethau neu gyfleusterau eu darparu, felly nid yw cost ychwanegol derfynol cyflwyno'r cynllun yn rhywbeth sydd wedi'i nodi o dan linell benodol yn y gyllideb ac nid yw'n cael ei gaffael ar wahân i welliannau ehangach.

Er enghraifft, o dan y Cynllun Hawliau Pobl Anabl, mae Llywodraeth Cymru yn rhoi'r camau gweithredu canlynol ar waith:

- Maes polisi Llywodraeth Cymru: **Strategaeth Drafnidiaeth a Chynllunio** – gweithio ar draws pob rhan o'r llywodraeth a gyda gweithredwyr trafnidiaeth i sicrhau bod technolegau digidol a chynorthwyol ar gael ac yn hygyrch ar draws dulliau teithio er mwyn i bobl anabl allu cynllunio ac ymgymryd â theithiau sy'n diwallu eu hanghenion yn hyderus.

- Maes polisi Llywodraeth Cymru: **Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Brif Swyddfa Gofal Cymdeithasol** – cydweithio â sefydliadau pobl anabl i gynllunio a chyflwyno ffrwd gyllid newydd sy'n diwallu anghenion gofal cymdeithasol.

- Maes polisi Llywodraeth Cymru: **Cymorth Addysg i Ddysgwyr** – gweithio gydag awdurdodau lleol i ddatblygu cynllun ar gyfer y gweithlu addysg drwy ddeall bylchau yn y gweithlu a gwaith cynllunio'r gweithlu, gan gynnwys y gweithlu arbenigol ar gyfer plant a phobl ifanc anabl.

- Maes polisi Llywodraeth Cymru: **Cynhwysiant Digidol / Cydraddoldeb / Cyfiawnder Cymdeithasol** – gweithio gyda rhanddeiliaid, i ddatblygu a gwerthuso cynllun grantiau cynhwysiant digidol cenedlaethol sy'n cyd-fynd ag uchelgais y Safon Ofynnol ar gyfer Bywyd Digidol.

# 6. Casgliad 1

Rydym yn nodi, pan fydd toriadau i'r llinell sylfaen yn cael eu hystyried, y bydd Cyfiawnder Cymdeithasol yn cael un o'r setliadau lleiaf hael ymhlith meysydd gwariant Cyllideb Ddrafft 2026-27. Mae atal bob amser yn fwy cost-effeithiol na gadael i broblemau dyfu, ac mae effaith atal glir neu botensial i atal mewn sawl maes gwariant Cyfiawnder Cymdeithasol. Rydyn ni'n pryderu nad yw’r dyraniadau yn y gyllideb yn cydnabod hyn yn ddigonol.

Ymateb:

Rydym yn cydnabod pryder y Pwyllgor ynghylch maint cymharol y dyraniad i'r Prif Grŵp Gwariant Cyfiawnder Cymdeithasol ar gyfer 2026-27 ar ôl ystyried addasiadau i'r llinell sylfaen. Fel y nodwyd yn ein tystiolaeth, cafodd y Gyllideb hon ei llywio o fewn cyd-destun cyllidol eithriadol o heriol, a bu'n rhaid gwneud dewisiadau anodd ym mhob portffolio. Er gwaethaf hyn, rydym wedi gweithredu er mwyn gwarchod craidd ataliol gwariant Cyfiawnder Cymdeithasol lle bynnag y bo'n bosibl.

Mae ein tystiolaeth yn dangos sawl maes lle mae gwaith atal yn amlwg wedi llywio ein penderfyniadau cyllidebol. Mae pob Llinell Wariant yn y Gyllideb sy'n rhan o'r Prif Grŵp Gwariant wedi cael y cynnydd chwyddiannol llawn o 2%, sy'n adlewyrchu'r rôl ataliol hanfodol y mae'r rhaglenni hyn yn ei chwarae i fynd i'r afael ag anghydraddoldeb, lleihau tlodi, cefnogi cydlyniant cymunedol, a diogelu unigolion sy'n wynebu risg. Yn ogystal, cafodd £2.4m pellach ei addasu at ddibenion gwahanol yn y Prif Grŵp Gwariant i atgyfnerthu meysydd ag effaith ataliol glir – gan gynnwys cynhwysiant digidol, trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol, tlodi plant a gwasanaethau cynghori.

Mae'r Gyllideb hefyd yn parhau i gyllido camau gweithredu ataliol trawslywodraeth sylweddol nad ydynt yn rhan o'r Prif Grŵp Gwariant Cyfiawnder

Cymdeithasol ond sy'n cyflawni ei nodau mewn ffordd uniongyrchol – fel Prydau Ysgol Am Ddim, y Grant Hanfodion Ysgol, Cynllun Nyth Cartrefi Clyd a rhaglenni cymorth i deuluoedd fel Teuluoedd yn Gyntaf a Dechrau'n Deg. Mae'r rhain yn elfennau hanfodol o ddull gweithredu system gyfan mewn perthynas ag atal sy'n ymdrin ag achosion sylfaenol caledi ac anghydraddoldeb. Mae'r rhan fwyaf o'n polisïau sy'n anelu at gefnogi pobl â nodweddion gwarchodedig hefyd yn drawsbynciol, sy'n golygu nad yw'r gwariant sy'n gysylltiedig â chyflawni'r polisi wedi'i gyfyngu i'r gwariant a nodir yn Llinell Wariant yn y Gyllideb Cydraddoldebau a Hawliau Dynol, ond ei fod yn gysylltiedig â phob un o Brif Grwpiau Gwariant Llywodraeth Cymru.

At hynny, mae proses yr Asesiad Effaith Integredig Strategol yn sicrhau y caiff effeithiau ataliol, gan gynnwys lleihau niwed yn yr hirdymor a chysondeb â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, eu hystyried yn llawn fel rhan o bob portffolio. Mae'r dull fframio hwn sy'n ystyried y llywodraeth gyfan yn sicrhau nad yw buddsoddiadau mewn gwaith atal wedi'u cyfyngu i un Prif Grŵp Gwariant ond eu bod yn rhan annatod o'r penderfyniadau cyllidol ehangach a wneir.

Er bod y rhagolygon cyllidol yn gyfyngedig o hyd, mae ein dull gweithredu yn adlewyrchu ymrwymiad clir i gynnal ac atgyfnerthu gwasanaethau ataliol yn y mannau lle maent yn gwneud y gwahaniaeth mwyaf. Byddwn yn parhau i flaenoriaethu gwaith atal wrth i gyllidebau ddatblygu, gan gydnabod—fel y gwna'r Pwyllgor—mai atal niwed yw'r ffordd fwyaf effeithiol a lleiaf costus o gefnogi cymunedau a gwella canlyniadau hirdymor ledled Cymru.

# 7. Casgliad 2

Rydym yn cydnabod y pwysau sylweddol y mae cyrff cyhoeddus yn eu hwynebu, ond rydym yn siomedig gan y diffyg cynnydd sy'n cael ei wneud wrth symud tuag at fesurau atal a ragwelir gan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

Ymateb:

Fel un o elfennau allweddol yr egwyddor datblygu cynaliadwy o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, mae gwaith atal yn hanfodol wrth gyflwyno a chyflawni ein nodau llesiant ledled Cymru. Dyna pam mae Llywodraeth Cymru a Chomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol wedi cydweithio i ddatblygu diffiniad o atal, y gellir ei ddefnyddio i fapio gwariant ataliol ac i fuddsoddi'n gynyddol mewn ffordd fwy sylfaenol gan anelu at gamau atal cychwynnol. Yn dilyn argymhelliad mewn perthynas â'r diffiniad hwn yn Adroddiad Cenedlaethau'r Dyfodol 2025, mae Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda'r Comisiynydd i benderfynu sut y gellir sicrhau y caiff y diffiniad hwn ei ystyried fel rhan o wariant cyrff cyhoeddus o dan y Ddeddf.

O ran gwariant ataliol mewn cyllidebau, mae egwyddor hirsefydledig bod Llywodraeth Cymru yn ceisio osgoi neilltuo cyllid gan y gall hyn leihau gallu sefydliadau i reoli eu cyllidebau eu hunain yn unol â'u cyfrifoldebau. Er enghraifft, mae partneriaid llywodraeth leol wedi dadlau droeon y dylid symud cyllid yn benodol tuag at y grant cynnal refeniw er mwyn sicrhau na chaiff cyllid ei glustnodi a bod hynny'n eu galluogi i wneud y penderfyniadau gorau dros eu hardal leol benodol.

At hynny, mae'n heriol iawn cadw cyllid ar gyfer gwaith atal ac ymyrryd yn gynnar ar wahân mewn ffordd effeithiol a theg heb danseilio'r dull atal ehangach. Mae angen cydbwysedd rhwng darparu gwasanaethau ar unwaith a gallu cynllunio yn yr hirdymor i atal yr angen i ddefnyddio'r gwasanaethau hynny.

Mae mathau eraill o wariant ataliol yn cael eu hystyried, ac mae Adolygiad Gwariant Cymru yn archwilio sut y gall dulliau ataliol leihau'r galw hirdymor ar wasanaethau cyhoeddus a sicrhau gwell canlyniadau i bobl yng Nghymru. Mae cydweithio trawslywodraeth yn ganolog i'r gwaith hwn, gyda chyfleoedd clir i gynllunio, gwneud penderfyniadau ac alinio adnoddau mewn ffordd fwy cydgysylltiedig er mwyn mynd i'r afael â'r achosion sylfaenol yn hytrach na'r symptomau. Mae'r dull gweithredu hwn yn ein helpu i symud oddi wrth wariant ymatebol, gan annog cynaliadwyedd a gwydnwch mewn gwariant cyhoeddus.

# 8. Casgliad 3

Rydym yn croesawu unrhyw ymdrechion i gymhwyso'r dysgu o'r tri chynllun peilot ond rydym yn siomedig gyda maint y cynlluniau a chyflymdra'r cynnydd hyd yma. Rydym yn annog Llywodraeth Cymru i roi mwy o dystiolaeth gadarn i ni ar sut y mae'n bwriadu prif ffrydio ac ymgorffori cyllidebu ar sail rhywedd mewn ffordd systematig a hirdymor.

Ymateb:

Rydym yn falch o'r cynnydd a wnaed ar gyllidebu ar sail rhywedd yn ystod tymor y Senedd hon. Drwy'r tri chynllun peilot, rydym wedi datblygu dealltwriaeth werthfawr ac wedi dysgu gwersi ymarferol sydd wedi llywio ein dull gweithredu wrth ystyried cydraddoldeb fel rhan o brosesau cyllidebol. Mae'r cynlluniau peilot hyn yn gam pwysig ymlaen o ran deall sut y gellir cymhwyso dulliau cyllidebu ar sail rhywedd yng nghyd-destun Cymru.

Rydym yn cydnabod uchelgais y Pwyllgor i brif ffrydio cyllidebu ar sail rhywedd mewn ffordd systematig a hirdymor. Er bod gwaith sylweddol wedi'i gwblhau i osod y sylfeini, y Llywodraeth nesaf fydd yn gyfrifol am unrhyw ymdrechion pellach i ddatblygu ac ehangu'r gwaith hwn fel rhan o'i blaenoriaethau ar gyfer y dyfodol.

# 9. Casgliad 4

Gwnaethom ysgrifennu at yr Ysgrifennydd Cabinet i fynegi ein siom am y penderfyniad hwn ac i ofyn am ragor o wybodaeth am union natur rhwystrau ynghylch gweithredu ac am eglurhad ar rôl Clearsprings yn y mater. Rydym yn galw eto ar Lywodraeth Cymru i gyhoeddi'r wybodaeth hon ac i nodi sut y bydd y £0.7m a ddyrannwyd i'r prosiect hwn yn cael ei ailddyrannu a pha gamau amgen, ymarferol y bydd yn eu cymryd i gefnogi ceiswyr lloches, yn arbennig o ran teithio i apwyntiadau hanfodol.

Ymateb:

Ysgrifennais at Gadeirydd y Pwyllgor ar 5 Ionawr yn rhoi mwy o eglurder ar yr heriau a wynebwyd wrth ddatblygu elfen Tocyn Croeso'r Prosiect Welcome Connectivity. Mae'r llythyr hwnnw, ynghyd â gohebiaeth gynharach, yn nodi na fu'n bosibl bwrw ati â'r Tocyn Croeso mewn ffordd a oedd yn cyflawni'r amcanion polisi, yr amserlenni cyflenwi a'r gofynion o ran gwerth am arian, a hynny er gwaethaf gwaith archwilio ac ymgysylltu helaeth gyda phartneriaid cyflawni.

Roeddwn yn gallu cadarnhau bod Clearsprings Ready Homes o blaid y prosiect ond nad oedd modd iddynt, o dan delerau contract y Swyddfa Gartref a gofynion diogelu data, rannu na dilysu gwybodaeth am ddefnyddwyr y gwasanaeth â thrydydd partïon, gan gynnwys Llywodraeth Cymru neu Trafnidiaeth Cymru. Cafodd modelau dilysu amgen eu hystyried, gan gynnwys dilysu drwy awdurdodau lleol, ond nid oeddent yn ddichonadwy o fewn yr amserlen ofynnol a byddent wedi gosod cyfrifoldebau ychwanegol heb eu cyllido ar Awdurdodau Lleol.

Yn ogystal, nododd gwaith pellach y byddai costau blynyddol amcanestynedig cynllun cenedlaethol yn sylweddol uwch na'r £0.7m a oedd ar gael ar gyfer 2025-26, ac y byddai dulliau cyflawni amgen yn cyflwyno risgiau ychwanegol yn ariannol

a gweithredol ac o ran cydraddoldeb. Gyda'i gilydd, roedd y ffactorau hyn yn golygu nad oedd modd parhau â'r Tocyn Croeso yn ystod tymor y Senedd hon.

Er y siom nad oedd modd bwrw ymlaen â'r Tocyn Croeso, mae Llywodraeth Cymru yn parhau'n ymrwymedig i ymdrin â'r rhwystrau trafnidiaeth a digidol y mae pobl sy'n ceisio noddfa yn eu hwynebu. Mae anghenion cysylltedd digidol bellach yn cael eu diwallu heb unrhyw gost i Lywodraeth Cymru drwy bartneriaeth â'r Good Things Foundation, sy'n darparu cardiau SIM am ddim i geiswyr lloches.

Caiff y £0.7m a ddyrannwyd i'r Prosiect Welcome Connectivity ei ddefnyddio at ddibenion gwahanol er mwyn atgyfnerthu cyllid wrth gefn awdurdodau lleol drwy amrywiad i'r grant sydd ar hyn o bryd yn cefnogi'r costau parhaus sy'n gysylltiedig ag ymateb i'r sefyllfa yn Wcráin. Ni chaiff y cyllid hwn ei glustnodi'n benodol i unigolion o Wcráin a gefnogir, gan alluogi awdurdodau lleol i'w ddefnyddio mewn ffordd hyblyg i gefnogi aelwydydd ag anghenion tai, gan gynnwys pobl sy'n ceisio noddfa, ac i helpu i atal digartrefedd a helpu unigolion i symud i lety sefydlog.

Aeth swyddogion ati i ystyried opsiynau ailddyrannu byrdymor amgen a fyddai wedi cyllido cymorth trafnidiaeth yn uniongyrchol. Fodd bynnag, dim ond grwpiau cyfyngedig fyddai wedi cael budd o'r opsiynau hyn, roedd risgiau cyflawni yn gysylltiedig â nhw yn ystod y cam hwn o'r flwyddyn ariannol, ac ni fyddent wedi bod yn ymyriad cynaliadwy na strategol. Defnyddio'r cyllid at ddibenion gwahanol yn y fath fodd sy'n cael yr effaith fwyaf ar gydraddoldeb.

Y Swyddfa Gartref sy'n gyfrifol am sicrhau mynediad i apwyntiadau hanfodol sy'n gysylltiedig â lloches o hyd drwy ei threfniadau cymorth lloches a'i darparwyr llety dan gontract. Ochr yn ochr â hyn, mae Llywodraeth Cymru yn parhau'n ymrwymedig i ymdrin â heriau trafnidiaeth a mynediad i bobl sy'n ceisio noddfa. Mae swyddogion yn parhau i weithio'n agos â chydweithwyr trafnidiaeth, awdurdodau lleol a phartneriaid allweddol yn y trydydd sector i ystyried datrysiadau ymarferol, gan gynnwys hyrwyddo ymwybyddiaeth a rhoi cynlluniau teithio consesiynol sy'n bodoli eisoes ar waith lle y bo'n berthnasol.

# 10. Casgliad 5

Gallai bod yn ddibynnol ar gyllid prif ffrwd greu'r risg nad yw anghenion plant yn cael eu diwallu neu eu blaenoriaethu'n gyson ar draws rhanbarthau. Er mwyn sicrhau bod anghenion plant yn cael eu diwallu'n gyson, dylai Llywodraeth Cymru ystyried mapio gwasanaethau arbenigol i blant ar draws rhanbarthau. Byddai hyn yn helpu i nodi bylchau, yn osgoi dyblygu gwaith ac yn llywio penderfyniadau cyllido yn y dyfodol. Heb fapio, gallai cyllid prif-ffrwd arwain at ddarpariaeth anwastad.

Ymateb:

Mae'n hanfodol deall anghenion unigryw plant a phobl ifanc â phrofiad o drais, cam-drin domestig a thrais rhywiol a pha ddarpariaeth sy'n bodoli ar eu cyfer. Mae Deddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015 yn gosod dyletswyddau ar awdurdodau lleol a Byrddau iechyd Lleol i gynllunio eu hymateb i'r mathau hynny o drais ar y cyd drwy eu strategaethau lleol neu ranbarthol ar y mater, yn seiliedig ar eu hasesiad o'r gwasanaethau sydd eu hangen i ddiwallu anghenion plant a phobl ifanc yn eu hardaloedd.

Yn ystod y flwyddyn hon (2026-27), byddwn yn cynnal ymarfer mapio cenedlaethol o wasanaethau a llwybrau arbenigol i blant a phobl ifanc. Bydd hyn yn darparu darlun cliriach o'r ddarpariaeth bresennol ac, yn seiliedig ar dystiolaeth, yn nodi'r gwasanaethau sy'n rhoi'r cymorth gorau i blant a phobl ifanc adfer a gwella o effaith achosion o gam-drin domestig a thrais rhywiol.

Yn ystod y cyfnod pan fydd yr ymarfer mapio hwn yn mynd rhagddo, byddwn yn parhau i gyllido prosiect Ar Trac ar gyfer 2026-27 (£530k yn amodol ar gytundeb cyllidebol). Caiff Ar Trac ei gyflwyno gan gonsortiwm o dair asiantaeth cam-drin domestig arbenigol ac mae'n cefnogi plant a phobl ifanc rhwng 5 ac 16 oed sydd â phrofiad o gam-drin domestig neu a fu'n dyst iddo ac sy'n wynebu anawsterau o ran eu cydberthnasau â'u teulu neu eu cyfoedion.

Maes o law, byddwn yn ymgynghori ar ganllawiau statudol i awdurdodau lleol a Byrddau Iechyd wrth gyflawni eu dyletswyddau strategol o dan Ddeddf 2015 a byddwn yn pwysleisio sut y mae'n rhaid i'w trefniadau ar gyfer asesu anghenion eu hardal gynnwys plant.

# 11. Casgliad 6

Rydym yn cydnabod y cyfraniad gwerthfawr y mae Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu yn ei wneud i ddiogelwch cymunedol ledled Cymru. Ar yr un pryd, rydym yn nodi mai un cyfiawnhad dros wario adnoddau Llywodraeth Cymru ar faes nad yw wedi'i ddatganoli, oedd i bontio bwlch cyllido a grëwyd gan doriadau'r Swyddfa Gartref. Yn dilyn y newid yn llywodraeth San Steffan, a chynnydd i'r gyllideb plismona, rydym o'r farn ei bod nawr yn amser addas i edrych ar ddyfodol hirdymor y trefniadau hyn a'r gwaith pontio o ran cyfrifoldeb ffurfiol am ddarparu Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu. Nodwn fod Llywodraeth Cymru wedi gwerthuso cyfraniad y Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu y mae'n eu hariannu ac rydym yn cytuno y dylid cyhoeddi hwn a'i rannu gyda'r Pwyllgor erbyn 31 Ionawr 2026 fan bellaf.

Ymateb:

Cyhoeddodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Dai a Llywodraeth Leol Ddatganiad Ysgrifenedig yn ddiweddar yn cyfeirio at Setliad Dros Dro yr Heddlu ar gyfer 2026-27: **Datganiad Ysgrifenedig: Setliad Dros Dro yr Heddlu 2026-27 (18 Rhagfyr 2025) | LLYW.CYMRU**

Mae'r datganiad yn cadarnhau ein bod yn parhau â'n hymrwymiad i ddarparu Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu ychwanegol yn uniongyrchol. Fel y nodwyd yng nghyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru, defnyddir £16.3m i gyllido swyddi Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu yng Nghymru yn uniongyrchol. Mae hyn yn gynnydd o 2.2% o gymharu â'n cyllid ar gyfer 2025-26 a bydd yn galluogi heddluoedd i barhau i ddarparu Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu i gefnogi ein cymunedau yng Nghymru. Darperir cyllid ar gyfer Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu yng Nghymru sy'n ychwanegol at setliad y Swyddfa Gartref, gan roi cymorth ychwanegol i gymunedau yng Nghymru. Er bod plismona yn faes a gedwir yn ôl, mae ein cyllid ar gyfer Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu yn adlewyrchu'r gwaith y maent yn

ei wneud i feithrin ymddiriedaeth ac i ddarparu cyswllt rhwng yr heddlu a chymunedau yng Nghymru, gan gefnogi ein dyheadau ar gyfer y cymunedau hynny.

Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod pwysigrwydd adolygu rôl a chyfraniad Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu yng Nghymru a'u deall. Yn dilyn argymhelliad gan y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol, cynhaliwyd adolygiad mewnol i archwilio'r llenyddiaeth sydd ar gael ar Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu a'u heffaith ar blismona a chymunedau lleol yng Nghymru. Ategwyd yr adolygiad mewnol hwn gan ddau weithdy gyda Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu a swyddogion yr heddlu i ystyried sut mae'r canfyddiadau yn berthnasol i'r cyd-destun yng Nghymru.

Mae'r adroddiad yn destun gwiriadau cyhoeddi terfynol ar hyn o bryd a chaiff ei gyhoeddi ar dudalen we Ystadegau ac Ymchwil Llywodraeth Cymru ar 10 Chwefror 2026, yn dilyn rhag-gyhoeddiad ar 27 Ionawr, yn unol â phrotocolau cyhoeddi Ymchwil Gymdeithasol y Llywodraeth. Fel adolygiad mewnol, mae'n bwysig nodi bod cyfyngiadau yn gysylltiedig â'r gwaith ac nad yw'n darparu gwerthusiad llawn o Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu yng Nghymru nac asesiad o werth cyllido'r adnodd hwn. Yn hytrach, mae'n cynnig awgrym o'r hyn y mae'r dystiolaeth gyfredol yn ei ddweud am gyfraniad Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu.

Er mwyn ymdrin â'r cyfyngiadau hyn, mae Llywodraeth Cymru yn comisiynu adolygiad allanol i ddarparu asesiad mwy cynhwysfawr o'r broses o gyllido Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu a'i heffaith yng Nghymru. Dechreuodd y broses gaffael drwy gyhoeddi hysbyseb ar 26 Medi 2025, a daeth i ben ar 29 Tachwedd 2025. Mae'r ceisiadau wedi cael eu hasesu, a disgwylir i'r contract ddechrau ym mis Ionawr 2026. Bydd yr adolygiad yn rhedeg am naw mis a bwriedir iddo ddod i ben ym mis Hydref 2026.

# 12. Casgliad 7

Dylai Llywodraeth Cymru gydweithio â phartneriaid a rhoi'r gorau i drosglwyddo'r cyfrifoldeb i eraill ar y mater hwn. Rydym yn ailadrodd argymhellion ein hadroddiad yn 2023 ac yn galw ar Weinidogion i gyflwyno cynlluniau credadwy sydd â chyllid pwrpasol er mwyn sicrhau bod digon o gymorth yn cael ei ddarparu i bobl ifanc ag anghenion iaith, lleferydd a chyfathrebu sydd yn y system cyfiawnder ieuenctid.

Ymateb:

Yn aml, mae gan blant sy'n rhan o'r system cyfiawnder ieuenctid nifer o anghenion sy'n gorgyffwrdd, sy'n aml yn deillio o anfantais, trawma ac anghenion datblygiadol nas diwallwyd. Er enghraifft, mae nifer sylweddol o blant ag anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu yn y system cyfiawnder ieuenctid, na fydd llawer o'r anghenion hynny'n hysbys hyd nes iddynt ddod i gysylltiad â'r timau troseddwyr ifanc am y tro cyntaf. Mae'r gallu i gael gafael ar gymorth priodol yn amrywio'n sylweddol rhwng awdurdodau lleol a byrddau iechyd, ac mae'r cyfrifoldeb wedi'i rannu rhwng gwahanol wasanaethau a ffrydiau cyllido. Mae diffyg cydgysylltu o'r fath yn her o hyd, sy'n codi yn fynych, o ran darparu'r gwasanaeth gorau posibl i blant sydd ei angen.

Er mwyn ymdrin â'r mater hwn, rydym yn ystyried opsiynau i lunio safonau gofynnol a hyrwyddo'r arferion gorau er mwyn sicrhau bod pob gwasanaeth cyfiawnder ieuenctid yn nodi anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu mewn ffordd gyson, ac y gall y lefelau cymorth ddiwallu'r anghenion hynny'n effeithiol. Mae'n hanfodol ein bod yn gweithio mewn partneriaeth â rhanddeiliaid allweddol gan gynnwys Awdurdodau Lleol, Byrddau Iechyd, gwasanaethau cyfiawnder ieuenctid, Coleg Brenhinol y Therapyddion Lleferydd ac Iaith a Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid Cymru a Lloegr.

Wrth fwrw ati i ddatganoli maes cyfiawnder yn llwyr i Gymru, rydym yn gweithio yn gyntaf i sicrhau cytundeb â Llywodraeth y DU i ailalinio'r cyllid a'r prosesau

goruchwylio strategol ar gyfer gwasanaethau cyfiawnder ieuenctid. Bydd hyn yn cynnig y cyfle i sicrhau bod y system yn fwy effeithiol, yn lleihau achosion o ddyblygu ac yn sicrhau y caiff adnoddau eu targedu at y meysydd lle ceir yr effaith fwyaf, a'u bod yn y pen draw yn canolbwyntio ar wella canlyniadau i blant.

# 13. Casgliad 8

Rydym yn croesawu'r ymrwymiad i setliadau ariannol aml-flwyddyn sydd wedi'u cynnwys yn y Cod Ymarfer ar gyfer Ariannu'r Trydydd Sector a chredwn y dylai Llywodraeth Cymru fonitro'r defnydd ohono ar draws y portffolio i sicrhau ei fod yn cael ei normaleiddio ledled y llywodraeth.

Ymateb:

Rydym yn croesawu'r ffaith bod y Pwyllgor yn cydnabod pwysigrwydd setliadau ariannol aml-flwyddyn ac yn cytuno eu bod yn chwarae rhan hanfodol wrth atgyfnerthu sefydlogrwydd a chynaliadwyedd yn y trydydd sector. Mae Llywodraeth Cymru yn ymrwymedig i'r egwyddorion a nodwyd yn y Cod Ymarfer ar gyfer Ariannu'r Trydydd Sector, a byddwn yn parhau i weithio gyda thimau polisi ar draws portffolios i fonitro sut y caiff yr egwyddorion hyn eu cymhwyso'n ymarferol. Fel rhan o hyn, byddwn yn ystyried cyfleoedd pellach i roi trefniadau cyllido aml-flwyddyn ar waith ac i normaleiddio'r defnydd ohonynt lle y bo'n briodol, gan gydnabod eu manteision o ran cynllunio hirdymor, sefydlogrwydd y gweithlu a gwella canlyniadau i gymunedau.

Senedd Cymru
**Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol**

# Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2026-27

Rhagfyr 2025

## 1. Cyflwyniad a gwybodaeth gefndir

Mae'r adroddiad hwn yn manylu ar ddeilliannau craffu y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol ar gynigion Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2026-27. Nid yw'n bosibl ymdrin â phob mater o fewn ein cylch gorchwyl. Mae'n werth nodi, ar y dechrau, natur gydgysylltiedig gwariant cyfiawnder cymdeithasol a'r ddarpariaeth ym mron pob maes portffolio arall. Mae mynd i'r afael â thlodi a lleihau anghydraddoldeb yn fuddsoddiad yn ein dyfodol ni oll ac yn hanfodol wrth sicrhau gwariant cyhoeddus mwy ataliol. Yn ein hadroddiad, rydym yn canolbwyntio ar feysydd allweddol o anghydfod neu bryder y byddai'r Pwyllgor yn hoffi i Lywodraeth Cymru eu hystyried ymhellach. Pwrpas yr adroddiad yw llywio trafodaethau ar y Gyllideb Ddrafft a drefnwyd ar gyfer 16 Rhagfyr a'r Gyllideb Derfynol a drefnwyd ar gyfer 26 Ionawr 2026.


**1.** Mae'r dystiolaeth a gyflwynwyd gan Lywodraeth Cymru a'r sesiwn graffu a gynhaliwyd gyda Jane Hutt AS, Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyfiawnder Cymdeithasol, y Trefnydd a'r Prif Chwip, ar 24 Tachwedd 2025, yn sail i'r adroddiad hwn.

**2.** Yn ystod y sesiwn, gwnaeth yr Ysgrifennydd Cabinet sawl ymrwymiad i roi rhagor o wybodaeth i'r Pwyllgor. Gwnaed hyn trwy ohebiaeth ac roedd yn cwmpasu ystod o bynciau gan gynnwys: undebau credyd, bwndeli babanod, cynlluniau ar gyfer Gwasanaeth Cyfreithiol Cydraddoldebau, cydlyniant cymunedol a safleoedd Sipsiwn a Theithwyr. Mae copi o ymateb yr Ysgrifennydd Cabinet ar gael yn yr Atodiad ar gyfer yr adroddiad hwn ac mae hefyd wedi'i gyhoeddi ar ein gwefan er gwybodaeth.[1]

# 2. Cyllideb Ddrafft 2026-27

**3.** Mae Llywodraeth Cymru yn dyrannu cyfanswm o £26.8 biliwn yn y Gyllideb Ddrafft (ac eithrio Gwariant a Reolir yn Flynyddol). Mae Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn cael hanner y gyllideb ddrafft gyffredinol, gyda Chyfiawnder Cymdeithasol yn cyfrif am lai na 1%. Gellir gweld y prif newidiadau yn ffigur 1.

***Ffigur 1: Prif newidiadau rhwng Cyllideb Ddrafft 2026-27 a'r llinell sylfaen ddiwygiedig 2025-26 (£miliwn)***




**4.** Mae'r Gyllideb Ddrafft yn ailddatgan y penderfyniadau a wnaed yn y gyllideb flaenorol ar gyfer Cymru yn 2025-26 ac yn cymhwyso cynnydd chwyddiannol i bob Prif Grŵp Gwariant fel y bydd "pob rhan o Lywodraeth Cymru yn dechrau

[1] Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol, Llythyr at yr Ysgrifennydd Cabinet, 2 Rhagfyr 2025; ac Ymateb gan Lywodraeth Cymru, 5 Rhagfyr 2025

2026-27 gydag o leiaf yr un lefel o gyllid mewn termau real â'u llinellau sylfaen diwygiedig yn 2025-26."[2]

**5.** Esboniodd Llywodraeth Cymru ei dull gweithredu o ran y cynnydd gan nodi bod pob maes gwariant wedi cael:

- cynnydd o 2.2% i adnoddau cyllidol ar gyfer elfennau cyflog y sector cyhoeddus ym mhob adran;
- cynnydd o 2% ar gyfer chwyddiant (wedi'i gymhwyso i adnoddau cyllidol nad ydynt yn gyflog, cyfalaf cyffredinol a chyfalaf trafodiadau ariannol).

**6.** Yn sgil y cynnydd uchod, Tai a Llywodraeth Leol (2.21%) sy'n cael y cynnydd mwyaf mewn dyraniadau adnoddau cyllidol a Chyfiawnder Cymdeithasol (2.02%) sy'n cael y cynnydd lleiaf.

### Gwariant heb ei ddyrannu

**7.** Ar ôl i ni ystyried y dystiolaeth, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru gytundeb cyllideb gyda Phlaid Cymru ar 9 Rhagfyr. Mae'r cytundeb yn cynnwys mwy o arian ar gyfer llywodraeth leol a'r gyllideb iechyd a gofal cymdeithasol a bydd £120 miliwn o wariant cyfalaf ar gael i'r llywodraeth nesaf.

## Prif Grŵp Gwariant Cyfiawnder Cymdeithasol

**8.** Cyfanswm y llinell sylfaen ddiwygiedig ar gyfer 2025-26 (ac eithrio Gwariant a Reolir yn Flynyddol) ar gyfer y Prif Grŵp Gwariant Cyfiawnder Cymdeithasol yw **£154 miliwn**. Gwnaeth Llywodraeth Cymru addasiad negyddol o **£3.9 miliwn** i'r Gyllideb Derfynol 2025-26 er mwyn cyfrifo'r llinell sylfaen ddiwygiedig ar gyfer 2025-26.[3]

**9.** Cyfanswm y dyraniad ar gyfer cyllideb ddrafft 2026-27 (ac eithrio Gwariant a Reolir yn Flynyddol) yw **£163 miliwn.** O'i gymharu â 2025-26, mae hyn yn gynnydd o **£9 miliwn** (neu 6%) ar y llinell sylfaen ddiwygiedig neu gynnydd o **£3.5 miliwn** o'i gymharu â Chyllideb Derfynol Chwefror 2025.

**10.** Nododd yr Ysgrifennydd Cabinet mewn tystiolaeth ysgrifenedig: "yn dilyn adolygiad o gyfleoedd i ailddefnyddio cyllid o fewn y Prif Grŵp Gwariant Cyfiawnder Cymdeithasol, mae £2.4 miliwn ychwanegol wedi'i nodi mewn cyllid

[2] Llywodraeth Cymru, Adroddiad y Gyllideb Ddrafft Fanwl 2026-27, Tachwedd 2025, tudalen 3
[3] Llywodraeth Cymru, Tystiolaeth ysgrifenedig, 24 Tachwedd 2025, Atodiad A

adnoddau." Mae hyn yn cynnwys £1.2 miliwn wedi'i ailbwrpasu ar ôl cwblhau'r cynllun peilot Incwm Sylfaenol a £1.2 miliwn nad yw'n wariant rheolaidd.[4]

**11.** Dywedodd yr Ysgrifennydd Cabinet wrthym fod adolygiad o'r holl Linellau Gwariant Cyllidebol, a edrychodd yn benodol am gyfleoedd i ailbwrpasu cyllid, wedi galluogi cynyddu Llinellau Gwariant yn y Gyllideb yn ychwanegol at y cynnydd unffurf o 2% oherwydd chwyddiant. Byddai'r cynnydd hwn yn cael ei dargedu "mewn nifer o feysydd allweddol lle mae'r angen a'r galw mwyaf".[5]

### Ein barn ni

Cyfeiriodd yr Ysgrifennydd Cabinet at y gyllideb Cyfiawnder Cymdeithasol fel "buddsoddiadau bach" a dywedodd y "bydd eu heffaith yn bellgyrhaeddol ac yn sylweddol i'r unigolion y mae angen cymorth arnynt fwyaf." Nodwn fod y Gyllideb Ddrafft hon, i raddau helaeth, yn barhad o'r Gyllideb flaenorol ar gyfer 2025-26. Rydym yn croesawu'r ffaith bod isafswm mewn cynnydd chwyddiannol wedi'i gymhwyso i'r holl linellau gwariant ar gyfer y Gyllideb Cyfiawnder Cymdeithasol. Fodd bynnag, rydym hefyd yn nodi bod diwygiadau i linell sylfaen 2025-26 wedi arwain at doriad o £3.9 miliwn ac mai'r unig feysydd i gael addasiadau negyddol i'r llinell sylfaen ar gyfer adnoddau'r llynedd, oedd Cyfiawnder Cymdeithasol a'r portffolios Newid Hinsawdd a Materion Gwledig. Pan ystyrir toriadau i'r llinell sylfaen, mae'r rhagolygon ar gyfer gwariant ar Gyfiawnder Cymdeithasol felly'n dechrau o fan cychwyn llai hael na bron pob Prif Grŵp Gwariant arall a dim ond cynnydd cymedrol iawn sydd ar gyfer y flwyddyn i ddod.

**Casgliad 1.** Rydym yn nodi, pan fydd toriadau i'r llinell sylfaen yn cael eu hystyried, y bydd Cyfiawnder Cymdeithasol yn cael un o'r setliadau lleiaf hael ymhlith meysydd gwariant Cyllideb Ddrafft 2026-27. Mae atal bob amser yn fwy cost-effeithiol na gadael i broblemau dyfu, ac mae effaith atal glir neu botensial i atal mewn sawl maes gwariant Cyfiawnder Cymdeithasol. Rydyn ni'n pryderu nad yw'r dyraniadau yn y gyllideb yn cydnabod hyn yn ddigonol.

## 3. Themâu trawsbynciol

**12.** Dywedodd yr Ysgrifennydd Cabinet wrthym fod "Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol yn parhau i fod yn sail i flaenoriaethau'r llywodraeth hon" ac y byddai'r Prif Grŵp Gwariant Cyfiawnder Cymdeithasol ochr yn ochr â

[4] Llywodraeth Cymru, Tystiolaeth Ysgrifenedig, 24 Tachwedd 2025
[5] Llywodraeth Cymru, Tystiolaeth Ysgrifenedig, 24 Tachwedd 2025

chyllidebau eraill "yn cyfrannu at fynd i'r afael â thlodi ac anghydraddoldeb, hyrwyddo hawliau dynol a gwella llesiant pawb yng Nghymru."[6]

**13.** Gan fod rhai o'r themâu sydd o fewn ein cylch gorchwyl, megis cydraddoldeb, cyfiawnder cymdeithasol a chenedlaethau'r dyfodol, yn drawsbynciol, gwnaethom archwilio agweddau ar y rhain yn ystod ein gwaith craffu.

## Gwaith ataliol a gwariant ataliol

**14.** Rydym eisoes wedi ceisio archwilio i ba raddau y mae egwyddorion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn cael eu hadlewyrchu yn ein gwaith. Yn gynharach ym mis Ebrill 2025, cyhoeddodd Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol ac Archwilydd Cyffredinol Cymru adroddiadau sy'n ofynnol o dan Ddeddf 2015. Roedd gwaith ataliol a gwariant ataliol yn themâu allweddol yn y ddau adroddiad.[7]

**15.** Yn ôl yr Ysgrifennydd Cabinet:

> *"It is vital that the whole budget is shaped by the Well-being of Future Generations Act, and, of course, prevention is key to that—a central organising principle of Government and public bodies."*[8]

**16.** Fodd bynnag, canfu Archwilydd Cyffredinol Cymru, er bod cyrff cyhoeddus "yn cydnabod yr angen i weithio mewn modd ataliol" roedd y mwyafrif yn "cael trafferth gwneud newid mwy systemig tuag at atal." Yn ei farn ef, "mae gan y system iechyd yn arbennig rywfaint o ffordd i fynd o ran cymhwyso ffordd o feddwl sy'n rhoi sylw i genedlaethau'r dyfodol ar draws ei weithgarwch cynllunio a chyflawni". Wrth grynhoi, dywedodd "Yn 2025, rydym yn gweld bod atal dan bwysau" a bod hyn yn "amlwg mewn rhai dewisiadau gwario".[9]

**17.** Tynnodd yr Ysgrifennydd Cabinet sylw at ymrwymiad Llywodraeth Cymru i gyllido aml-flwyddyn a gwaith Adolygiad Gwariant Cymru fel tystiolaeth y

[6] Llywodraeth Cymru, Tystiolaeth Ysgrifenedig, 24 Tachwedd 2025
[7] Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol, Adroddiad Cenedlaethau'r Dyfodol 2025; ac Archwilio Cymru, Dim amser i'w golli: Gwersi o'n gwaith dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, Ebrill 2025
[8] Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol, 24 Tachwedd 2025 paragraff 10
[9] Archwilio Cymru, Dim amser i'w golli: Gwersi o'n gwaith dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, Ebrill 2025

byddai'n "ymdrin â heriau'r dyfodol a chyfleoedd o safbwynt trawslywodraethol ac o safbwynt gweithredu mwy ataliol."[10]

### Ein barn ni

Ar ôl ein sesiwn gyda'r Ysgrifennydd Cabinet, gwnaethom ysgrifennu at y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol i dynnu sylw at bryderon yr Archwilydd Cyffredinol mewn perthynas â gwariant iechyd a phwysleisio bod hon yn thema bwysig yng ngwaith craffu'r Pwyllgor Iechyd. Mewn adran ddiweddarach ar anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu, rydym yn gwneud sylwadau pellach ar sut y mae angen i benderfyniadau gwariant gyd-fynd â'r egwyddor o atal.

**Casgliad 2.** Rydym yn cydnabod y pwysau sylweddol y mae cyrff cyhoeddus yn eu hwynebu, ond rydym yn siomedig gan y diffyg cynnydd sy'n cael ei wneud wrth symud tuag at fesurau atal a ragwelir gan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

## Cyllidebu ar sail rhywedd

**18.** Mae Rhaglen Lywodraethu Llywodraeth Cymru yn cynnwys ymrwymiad i gyllidebu ar sail rhywedd. Er mwyn deall yn well sut y gall gwariant a phenderfyniadau polisi fynd i'r afael ag anghydraddoldebau rhywedd, cyflwynodd Llywodraeth Cymru dri chynllun peilot cyllidebu ar sail rhywedd.[11] Yn ogystal â gwerthusiad o un o'r cynlluniau peilot a gyhoeddwyd yn 2023, yn rhan o'r broses o greu'r Gyllideb Ddrafft eleni, cyhoeddwyd 'Cyllidebu ar sail rhywedd ar waith: Dysgu o gynlluniau peilot yng Nghymru 2019–2024.[12]

**19.** Dywedodd yr Ysgrifennydd Cabinet wrthym fod y "cynlluniau peilot cyllidebu ar sail rhywedd wedi llywio cyllideb 2026-27, drwy helpu i ymgorffori cydraddoldeb, tryloywder, a phrosesau gwneud penderfyniadau sy'n seiliedig ar dystiolaeth yn y broses gyllidebol."[13]

**20.** O ran y camau nesaf, mae 'Cyllidebu ar sail rhywedd ar waith' yn argymell prif ffrydio cyllidebu ar sail rhywedd yn y weithdrefn brosesu, meithrin gallu trwy ddatblygu pecynnau cymorth a chryfhau casglu a dadansoddi data. Mae'r adroddiad yn cadarnhau na fydd rhagor o gynlluniau peilot cyllidebu ar sail

[10] Llywodraeth Cymru, Tystiolaeth Ysgrifenedig, 24 Tachwedd 2025
[11] Llywodraeth Cymru, tri chynllun peilot cyllidebu ar sail rhywedd
[12] Llywodraeth Cymru, Cyllidebu ar sail rhywedd ar waith: Dysgu o gynlluniau peilot yng Nghymru 2019–2024, 3 Tachwedd 2025
[13] Llywodraeth Cymru, Tystiolaeth Ysgrifenedig, 24 Tachwedd 2025

rhywedd ac y bydd y pwyslais yn lle hynny ar "gadarnhau'r dysgu, meithrin capasiti a sefydlu cyllidebu ar sail rhywedd yn rhan o wead y llywodraeth."[14]

### Ein barn ni

Rydym yn croesawu canfyddiadau'r tri chynllun peilot cyllidebu ar sail rhywedd, ond nodwn eu bod yn gymharol gyfyngedig yn eu cwmpas, gan ganolbwyntio ar dri pholisi penodol yn unig. Rydym yn siomedig bod Llywodraeth Cymru wedi dewis peidio ag adeiladu ar fomentwm y cynlluniau peilot hyn trwy uwchraddio'r dull gweithredu neu drwy gymhwyso'r fethodoleg i faes gwariant mwy.

**Casgliad 3.** Rydym yn croesawu unrhyw ymdrechion i gymhwyso'r dysgu o'r tri chynllun peilot ond rydym yn siomedig gyda maint y cynlluniau a chyflymdra'r cynnydd hyd yma. Rydym yn annog Llywodraeth Cymru i roi mwy o dystiolaeth gadarn i ni ar sut y mae'n bwriadu prif ffrydio ac ymgorffori cyllidebu ar sail rhywedd mewn ffordd systematig a hirdymor.

# 4. Mynd i'r afael â thlodi

**21.** Mae dogfennaeth y Gyllideb Ddrafft yn datgan mai (ymhlith pethau eraill) "Nod cyllid portffolio Cyfiawnder Cymdeithasol yw mynd i'r afael ag anghydraddoldebau a'u lleihau, [a] mynd i'r afael â thlodi," yn enwedig ymhlith grwpiau yr effeithir arnynt yn anghymesur.[15] Tynnodd yr Ysgrifennydd Cabinet sylw at ystod o gamau gweithredu a gyflawnwyd drwy'r llinell wariant Cefnogi Cymunedau yn y Gyllideb.

## Tlodi plant

**22.** Wrth gyfeirio at ddull Llywodraeth Cymru o fynd i'r afael â thlodi plant, dywedodd yr Ysgrifennydd Cabinet wrthym y byddai'r Gyllideb Ddrafft yn dyrannu "£700,000 uwchlaw cynnydd safonol oherwydd chwyddiant" i gefnogi gweithredu'r Strategaeth Tlodi Plant. Byddai £450,000 ychwanegol hefyd ar gyfer y grant tlodi plant a £250,000 i gefnogi Cymuned Ymarfer y Strategaeth Tlodi Plant Genedlaethol.[16]

**23.** Dywedodd yr Ysgrifennydd Cabinet wrthym:

[14] Llywodraeth Cymru, Cyllidebu ar sail rhywedd ar waith: Dysgu o gynlluniau peilot yng Nghymru 2019–2024, 3 Tachwedd 2025
[15] Llywodraeth Cymru, Adroddiad y Gyllideb Ddrafft Fanwl 2026-27
[16] Llywodraeth Cymru, Tystiolaeth Ysgrifenedig, 24 Tachwedd 2025

> *"With 14 years of austerity, there's no question, with the suffering and the deepening of inequalities, which was very much out of our hands, we've had to do an awful lot of mitigation and emergency support and intervention over those times. When we come and debate and discuss the child poverty progress report, again, it will be looking at what is making a real difference. Employment-based measures are crucially important. The reversal of the two-child limit is going to bring so many families out of poverty, and so we hope that that's going to happen."*[17]

**24.** Deuddydd wedi ein sesiwn gyda'r Ysgrifennydd Cabinet, ar 26 Tachwedd, cyhoeddodd Canghellor y Trysorlys, Rachel Reeves AS, y byddai Llywodraeth y DU yn dod â'r cap dau blentyn i ben o fis Ebrill 2026.[18] Yn ôl y Trysorlys, byddai hyn o fudd i 69,000 o blant yng Nghymru.[19] Mae Llywodraeth Cymru yn credu y bydd dileu'r cap dau blentyn yn lleihau tlodi plant yng Nghymru rhwng tri a phedwar pwynt canran.[20] Yn yr un modd, mae'r Sefydliad Ymchwil Polisi Cyhoeddus yn amcangyfrif y bydd Cymru, ar ôl Swydd Efrog a Humber, yn gweld y cynnydd mwyaf mewn incwm o blith gwledydd a rhanbarthau'r DU o ganlyniad i'r newid hwn.[21]

**25.** Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei hadroddiad cynnydd ar y strategaeth tlodi plant ar 2 Rhagfyr.[22] Mae'n nodi effeithiau polisïau unigol Llywodraeth Cymru wrth fynd i'r afael â thlodi plant, gan gynnwys prydau ysgol am ddim i bob disgybl ysgol gynradd, y Gronfa Gynghori Sengl, y Gronfa Cymorth Dewisol, ac eraill. Fodd bynnag, mae'n tynnu sylw at y ffaith bod y ffigyrau diweddaraf yn dangos bod 31% o blant yng Nghymru yn wynebu tlodi, canran sydd "wedi parhau'n ystyfnig o uchel dros y degawd diwethaf."[23]

---

[17] Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol, 24 Tachwedd 2025, paragraff 70
[18] Trysorlys Ei Fawrhydi, Cyllideb 2025 yn llawn, 26 Tachwedd 2025 (Saesneg yn unig)
[19] Trysorlys Ei Fawrhydi, Datganiad i'r Wasg, Reeves yn mynd i'r afael â chosau byw, 26 Tachwedd 2025 (Saesneg yn unig)
[20] Datganiad ysgrifenedig gan y Prif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyfiawnder Cymdeithasol, y Trefnydd a'r Prif Chwip: Ymateb y Prif Weinidog i ddileu'r cap dau blentyn ar y budd-dal plant, 26 Tachwedd 2025
[21] IPPR, Adfer diogelwch: Deall effeithiau dileu'r cap dau blentyn ar draws y DU, 4 Rhagfyr 2025 (Saesneg yn unig)
[22] Llywodraeth Cymru, Strategaeth Tlodi Plant Cymru: adroddiad cynnydd 2025, 2 Rhagfyr 2025
[23] Llywodraeth Cymru, Strategaeth Tlodi Plant Cymru: adroddiad cynnydd 2025, 2 Rhagfyr 2025

### Ein barn ni

Croesawn y penderfyniad i godi'r cap dau blentyn ar y budd-dal plant fel cam cyntaf tuag at liniaru cyfraddau tlodi plant sy’n annerbyniol o uchel ac mae ymchwil yn dangos y bydd yn gwneud gwahaniaeth sylweddol i liniaru tlodi plant yng Nghymru. Mae hwn yn gyfle hanfodol i Lywodraeth Cymru ddefnyddio'r dulliau sydd ar gael iddi yn y modd mwyaf effeithiol wrth gefnogi’r gwaith o leihau tlodi plant ymhellach.

Rydym wedi mynegi ein siom o'r blaen am y diffyg cynnydd wrth fynd i'r afael â thlodi plant ac wedi bod yn feirniadol o'r diffyg uchelgais a ddangosir mewn sawl agwedd ar ddull Llywodraeth Cymru. Nodwn y potensial i'r penderfyniad hwn yng Nghyllideb y DU wella'r cyd-destun y mae Llywodraeth Cymru yn gweithredu ynddo.

**Argymhelliad 1.** Wrth ymateb i ddiwedd y cap dau blentyn, rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn ystyried ei hymateb i ddiwedd y cap dau blentyn ac unrhyw oblygiadau y gallai hyn eu cael ar ei dull o fynd i'r afael â thlodi plant, gan gynnwys y Strategaeth. Dylai hyn gynnwys:

- Asesu a oes angen unrhyw newidiadau i'r polisi presennol i sicrhau eu bod yn cyd-fynd â'r newidiadau mewn budd-daliadau a wnaed gan Lywodraeth y DU.
- Blaenoriaethu arian sydd ar gael ar gyfer buddsoddi mewn rhaglenni blaenoriaeth lle mae tystiolaeth glir eu bod yn effeithiol wrth leihau tlodi plant fel y nodir yn argymhelliad 3 o'n hadroddiad ar dlodi plant. [24]
- Dwyn ymlaen gynigion manwl am unrhyw gamau pellach y bydd yn eu cymryd i leddfu tlodi plant er mwyn adeiladu ar y cyfle a ddarparwyd gan ddiddymu'r cap dau blentyn.

## Mynd i’r afael â thlodi tanwydd

**26.** Er bod tlodi tanwydd yn faes y mae Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyfiawnder Cymdeithasol yn gyfrifol amdano, mae "prif fecanwaith Llywodraeth Cymru ar gyfer taclo tlodi tanwydd", sef y Rhaglen Cartrefi Clyd, yng ngofal Ysgrifennydd y Cabinet dros Dai a Llywodraeth Leol.[25]

[24] Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol, Amser rhoi diwedd ar dlodi plant, 2023
[25] Llywodraeth Cymru, Rhaglen Cartrefi Clyd: datganiad polisi

**27.** Mae'r cyllid cyfalaf ar gyfer y Rhaglen Cartrefi Clyd wedi aros yr un fath ar gyfer 2026-27, sef £3.73 miliwn tra bod y dyraniad adnoddau wedi cynyddu 2% o £37.5 miliwn i £38.25 miliwn.

**28.** Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei strategaeth i fynd i'r afael â thlodi tanwydd yn 2021. Erbyn 2035, ei nod yw na fydd mwy na 5% o holl aelwydydd Cymru yn byw mewn tlodi tanwydd, ac na fydd dim un aelwyd mewn tlodi tanwydd parhaus neu ddifrifol.[26] Ym mis Hydref 2024, amcangyfrifodd Llywodraeth Cymru fod 25% o aelwydydd Cymru yn byw mewn tlodi tanwydd, gyda 5% o aelwydydd yn byw mewn tlodi tanwydd difrifol.[27]

**29.** Yn ei adolygiad gwariant yn 2025, ymrwymodd Llywodraeth y DU £13.2 biliwn ar gyfer ei Rhaglen Cartrefi Clyd dros gyfnod yr adolygiad (2025-26 i 2029-30), gan gynnwys cyllid ganlyniadol Barnett. Yn ein hymchwiliad dilynol yn 2025 ar dlodi tanwydd, gwnaethom argymell y dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod unrhyw gyllid canlyniadol Barnett sy'n deillio o gynnydd mewn cyllid ar gyfer mynd i'r afael â thlodi tanwydd yn Lloegr, yn cael ei fuddsoddi yn y Rhaglen Cartrefi Clyd.

**30.** Dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyfiawnder Cymdeithasol ei bod wedi bod yn gweithio law yn llaw â'r Ysgrifennydd Tai i sicrhau bod y Rhaglen Cartrefi Clyd yn parhau i wneud gwahaniaeth a phwysleisiodd mai dyma oedd dechrau'r broses gyllideb.[28] Amlygodd hefyd fod ffynonellau eraill o gymorth ar gael megis y cynllun Rhwymedigaeth Cwmnïau Ynni (ECO) sydd ar gael ar gyfer y DU gyfan. Fodd bynnag, mae Llywodraeth y DU wedi cyhoeddi ers hynny y bydd cyllid ECO yn dod i ben o fis Mawrth 2026.[29] Yn y trydydd chwarter o 2025, roedd 15% o deuluoedd Cymru yn elwa ar holl fesurau ECO ledled Prydain Fawr. Cymru hefyd sydd â'r ganran uchaf o gartrefi sydd wedi elwa ar fesurau cymhwystra hyblyg, o unrhyw un o wledydd neu ranbarthau'r DU.[30]

## Ein barn ni

Yn ein hymchwiliad dilynol i dlodi tanwydd y llynedd, ailadroddwyd barn mwyafrif y rhanddeiliaid nad oedd lefel y buddsoddiad yn y Rhaglen Cartrefi Clyd yn agos at y raddfa sydd ei hangen er mwyn cyrraedd targedau tlodi tanwydd Llywodraeth Cymru ar gyfer 2035. Ein barn ni o hyd yw bod y buddsoddiad yn

[26] Llywodraeth Cymru, Trechu Tlodi Tanwydd 2021-2035
[27] Llywodraeth Cymru, Dangosfwrdd tlodi tanwydd
[28] Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol, 24 Tachwedd 2025,paragraff 78
[29] Llywodraeth y DU, Effaith Cyllideb yr Hydref ar filiau ynni (Saesneg yn unig)
[30] Llywodraeth y DU, Effeithlonrwydd ynni yn y cartref , Prydain Fawr, Chwarter 3 (mis Gorffennaf hyd at fis Medi) 2025 (Saesneg yn unig)

annigonol a chredwn hefyd mai buddsoddiad ychwanegol yn y maes hwn ddylai fod y brif flaenoriaeth. Dylid talu am y buddsoddiad ychwanegol drwy ddefnyddio'r £380 miliwn sydd ar gael mewn cronfeydd heb eu dyrannu.

Nodwn hefyd, ers i ni graffu ar gynigion y Gyllideb Ddrafft, fod Llywodraeth y DU wedi cyhoeddi y bydd y cyllid ar gyfer ECO, y mae Cymru yn elwa arni uwchlaw ein cyfran o'r boblogaeth, yn dod i ben ym mis Mawrth 2026. Mae'r ansicrwydd ynghylch yr hyn a fydd yn disodli ECO yn cryfhau'r achos i Lywodraeth Cymru roi mwy o flaenoriaeth i fuddsoddi yn y Rhaglen Cartrefi Clyd.

Rydym yn siomedig nad yw Llywodraeth Cymru wedi gosod targedau tlodi tanwydd dros dro hyd yma, er gwaethaf galwadau gan randdeiliaid a'n hargymhelliad blaenorol y dylid cyhoeddi targedau o'r fath erbyn mis Medi 2025 fan bellaf. Roedd Llywodraeth Cymru wedi nodi o'r blaen y byddai'n gwneud hynny ar ôl cyhoeddi amcangyfrifon tlodi tanwydd wedi'u diwygio ym mis Hydref. Rydym yn pryderu nad oes modd i Lywodraeth Cymru fonitro cynnydd, ac asesu a yw ei buddsoddiad yn y Rhaglen Cartrefi Clyd yn cyflawni.

**Argymhelliad 2.** Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn cynyddu lefel y buddsoddiad ar gyfer y Rhaglen Cartrefi Clyd, ac yn blaenoriaethu buddsoddiad mewn mesurau i wella effeithlonrwydd tanwydd cartrefi a mynd i'r afael â thlodi tanwydd. Dylai hyn hefyd fod yn flaenoriaeth ar gyfer y £120 miliwn o gyllid cyfalaf sydd ar gael i Lywodraeth Cymru ei ddyrannu ar ôl yr etholiad nesaf.

## System budd-daliadau Cymru.

**31.** Mae'r Gyllideb Ddrafft yn dyrannu **£500,000** ychwanegol i gefnogi'r gwaith o symleiddio budd-daliadau Cymru.[31] Yn ôl yr Ysgrifennydd Cabinet, bydd hyn yn parhau i "gefnogi gallu partneriaid cyflenwi allweddol i fwrw ymlaen ag unrhyw waith yn y maes hwn."[32]

**32.** Esboniodd yr Ysgrifennydd Cabinet fod gweithredu gan Lywodraeth Cymru, ochr yn ochr â darparu gwasanaethau cynghori, wedi arwain at £208.9 miliwn mewn incwm ychwanegol i aelwydydd ac wedi dileu £66.3 miliwn o ddyled. Pwysleisiodd yr Ysgrifennydd Cabinet rôl llywodraeth leol:

> *"We cannot deal with all of the important questions you've asked me today [...] without local government; they are our welfare state [...] They're the ones who can deliver on getting those three benefits:*

[31] Llywodraeth Cymru, Grŵp Llywio Symleiddio Budd-daliadau Cymru
[32] Llywodraeth Cymru, Tystiolaeth Ysgrifenedig, 24 Tachwedd 2025

> *Free School Meals, the School Essentials grant and the Council Rax Reduction Scheme. And many authorities are doing it—they're passporting it, they're enabling it. We want all local authorities to deliver on our welfare benefits charter for Wales."*[33]

**33.** Mynegodd yr Ysgrifennydd Cabinet fod llawer o awdurdodau yn pasbortio hawliau i fudd-daliadau Cymru ond bod Llywodraeth Cymru yn awyddus i bob awdurdod lleol gyflawni'r Siarter Budd-daliadau lles i Gymru.[34]

### Ein barn ni

Rydym yn llwyr gefnogi Siarter Budd-daliadau Cymru ac yn cydnabod ymdrechion pawb sy'n rhan o'r cynnydd a wnaed hyd yma. Ar ben hynny, rydym yn croesawu'r buddsoddiad ychwanegol a fydd yn cael ei wneud yn 2026-27.

Ar yr un pryd, mae'n rhwystredig iawn bod rhai awdurdodau lleol yn parhau i fod ar ei hôl hi er gwaethaf y gefnogaeth, yr arbenigedd a'r anogaeth sylweddol a ddarperir gan Lywodraeth Cymru a phartneriaid cyflenwi allweddol eraill. Mae'n amlwg bod lliniaru tlodi yn fuddiol i'r holl awdurdodau lleol, ac rydym yn credu y dylai fod mwy o dryloywder o ran pa awdurdodau lleol sy'n gwneud y cynnydd y mae Llywodraeth Cymru yn anelu at ei gyflawni erbyn mis Ebrill 2026 wrth ddatblygu dull mwy cydlynol o ymdrin â Chynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor, prydau ysgol am ddim a'r Grant Hanfodion Ysgol.

**Argymhelliad 3.** Rydym yn croesawu ymdrechion i weithredu cam 1 o'r gwaith hwyluso budd-daliadau yng Nghymru, ond rydym yn pryderu nad yw rhai awdurdodau lleol yn gwneud cynnydd fel y gobeithiwyd. Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn darparu manylion am gynnydd pob awdurdod lleol wrth weithredu cam 1, erbyn mis Chwefror 2026, ac yn amlinellu sut y mae'n gweithio gyda'r awdurdodau lleol sy'n cael trafferth i gyflawni hyn erbyn mis Ebrill 2026.

# 5. Cydraddoldeb a hawliau dynol

**34.** Mae Llywodraeth Cymru wedi dyrannu **£1 miliwn** ychwanegol i'r gyllideb Cydraddoldeb, Cynhwysiant a Hawliau Dynol ar gyfer 2026–27, gan gynyddu'r

[33] Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol, 24 Tachwedd 2025, paragraffau 160 ac 161
[34] Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol, 24 Tachwedd 2025, paragraffau 160 ac 161.

cyfanswm i £24 miliwn. Yn ogystal â'r cynnydd chwyddiannol (gwerth **£200,000**), mae'r cynnydd yn cynnwys:

- dyraniad o **£400,000** i sefydlu Gwasanaeth Cyfreithiol Cydraddoldeb;
- **£200,000** i ariannu costau blwyddyn gyntaf gweithredu'r Bil Iaith Arwyddion Prydain (Cymru).
- Cynyddu'r gyllideb ar gyfer cydlyniant cymunedol **£200,000**.

## Cynlluniau gweithredu ynghylch cydraddoldeb

**35.** Mae gan Lywodraeth Cymru sawl cynllun ynghylch cydraddoldeb, gan gynnwys Cymru Gwrth-hiliol; cynlluniau gweithredu LHDTC+ a chynlluniau gweithredu hawliau pobl anabl. Yn ei Chyllideb Ddrafft ddiwethaf ar gyfer 2025-26, dyrannodd Llywodraeth Cymru **£450,000** i helpu sefydliadau i gefnogi'r gwaith o gyflawni'r cynlluniau hyn.[35] Ni ddarparodd yr Ysgrifennydd Cabinet fanylion am gyllid penodol a ddyrannwyd i'r ffrydiau gwaith hyn ar gyfer 2026-27.

**36.** Pan ofynnwyd iddi am yr adnoddau a ddyrannwyd ar gyfer darparu hawliau pobl anabl, gwrthododd yr Ysgrifennydd Cabinet roi ffigur, gan ddweud ei fod yn gynllun â chyfrifoldeb trawslywodraethol a oedd wedi'i gynllunio i lywio datblygiad polisi a chyllid ar draws y Llywodraeth.[36]

### Ein barn ni

Er ein bod yn derbyn y bydd sawl maes gwariant o bob rhan o Lywodraeth Cymru yn gwneud cyfraniad, mae'n bwysig o safbwynt craffu ariannol ac asesu gwerth am arian ein bod yn gallu craffu ar y cyllid penodol a ddyrannwyd i gefnogi cyflawni cynlluniau gweithredu sy'n gysylltiedig â chydraddoldeb. Rydym yn nodi bod hyn wedi'i ddarparu o'r blaen a bod manylion am unrhyw newidiadau i'r dyraniadau gwariant hynny yn ddefnyddiol wrth asesu ystyriaethau fel gwerth am arian.

**Argymhelliad 4.** Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn rhoi manylion i ni am y cyllid penodol a ddyrannwyd i gefnogi'r gwaith o gyflawni cynlluniau gweithredu sy'n gysylltiedig â chydraddoldeb a manylion unrhyw newidiadau i'r dyraniadau gwariant, a hynny cyn y ddadl ar y Gyllideb Derfynol sydd wedi'i threfnu ar gyfer 26 Ionawr 2026.

[35] Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol, Cyllideb Ddrafft 2025-26, Chwefror 2025
[36] Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol, 24 Tachwedd 2025, paragraff 101

## Cyllid ar gyfer y Gweithgor Opsiynau Deddfwriaethol

**37.** Mae'r Rhaglen Lywodraethu yn cynnwys ymrwymiad i ymgorffori Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar gyfer Dileu pob math o Wahaniaethu yn erbyn Menywod a Chonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl ag Anableddau yng nghyfraith Cymru.[37] Yn 2022, sefydlodd Llywodraeth Cymru Weithgor Opsiynau Deddfwriaethol (y Gweithgor) i gynghori ar ymgorffori.[38]

**38.** Clywsom yn uniongyrchol gan Gadeirydd ac aelodau'r Gweithgor ym mis Medi 2024 a ddisgrifiodd heriau sy'n ymwneud â newydd-deb a chymhlethdod y gwaith a materion capasiti, megis natur wirfoddol ymwneud ag aelodaeth y Gweithgor.

**39.** Dywedodd yr Ysgrifennydd Cabinet wrthym fod cyfanswm cyllid o £143,515 wedi'i ddyrannu gan Lywodraeth Cymru i gefnogi'r Gweithgor Opsiynau Deddfwriaethol (y Gweithgor) o fis Ionawr 2024 tan fis Mawrth 2026. Roedd y ffigur hwn yn ychwanegol at yr amser staff a ddarparwyd gan swyddogion sy'n cefnogi'r Gweithgor. Pan holwyd yr Ysgrifennydd Cabinet, dywedodd fod adroddiad sy'n cynnwys argymhellion y Gweithgor i'w ddisgwyl y flwyddyn nesaf a bod Llywodraeth Cymru yn aros am ganlyniad yr adroddiad hwnnw cyn ymrwymo unrhyw gyllid pellach, a dywedodd ei bod yn gobeithio "y bydd rhai argymhellion pendant y gallwn weithredu arnynt."[39]

### Ein barn ni

Rydym yn deall bod ymgorffori Confensiynau'r Cenhedloedd Unedig yn fater cymhleth ac nad yw Llywodraeth Cymru ar ei phen ei hun yn ei hymdrechion i lywio'r cymhlethdod hwn. Fodd bynnag, credwn fod angen dysgu gwersi o agweddau ar y dull a allai fod wedi effeithio ar gyflawni, gan gynnwys diffyg eglurder ynghylch amserlenni prosiectau a'r dull 'atal a chychwyn' a welwyd wrth ddosrannu adnoddau a chyllid ar gyfer gwaith y Gweithgor.

Byddem yn croesawu cael cadarnhad pryd y bydd adroddiad y Gweithgor yn cael ei gyhoeddi.

[37] Llywodraeth Cymru, Rhaglen Lywodraethu, 15 Mehefin 2025
[38] Cyfarfod y Gweithgor Opsiynau Deddfwriaethol ar Hawliau Dynol, 22 Medi 2022
[39] Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol, 24 Tachwedd 2025, paragraff 98

### Tocynnau croeso

**40.** Roedd y Tocyn Croeso yn rhoi cymorth i geiswyr lloches i gael teithio ar fws am ddim neu am swm gostyngol. Cyhoeddwyd canllawiau ynghylch terfynu'r cynllun teithio am ddim ar fysiau ym mis Ebrill 2024.[40] Yn y Gyllideb Ddrafft ar gyfer 2025-26, dywedodd yr Ysgrifennydd Cabinet y byddai parhad o'r cyllid o £700,000 i weithredu'r Tocyn Croeso, ac i hwyluso mynediad i'r rhyngrwyd ar gyfer ceiswyr lloches sy'n byw yng Nghymru.

**41.** Rhoddodd yr Ysgrifennydd Cabinet ddiweddariad ar y Tocyn Croeso ar gyfer ceiswyr lloches a ffoaduriaid a dywedodd na ellir cyflawni'r model mewn modd diogel, fforddiadwy na chynaliadwy a bod y costau cyflenwi yn sylweddol uwch na dyraniadau'r gyllideb.[41]

**Casgliad 4.** Gwnaethom ysgrifennu at yr Ysgrifennydd Cabinet i fynegi ein siom am y penderfyniad hwn ac i ofyn am ragor o wybodaeth am union natur rhwystrau ynghylch gweithredu ac am eglurhad ar rôl Clearsprings yn y mater. Rydym yn galw eto ar Lywodraeth Cymru i gyhoeddi'r wybodaeth hon ac i nodi sut y bydd y £700,000 a ddyrannwyd i'r prosiect hwn yn cael ei ailddyrannu a pha gamau amgen, ymarferol y bydd yn eu cymryd i gefnogi ceiswyr lloches, yn arbennig o ran teithio i apwyntiadau hanfodol.

# 6. Diogelwch cymunedol a chydlyniant

## Atal trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol (VAWDASV)

**42.** Mae Llywodraeth Cymru wedi dyrannu £700,000 ychwanegol i VAWDASV yn y Gyllideb Ddrafft ar gyfer 2026–27, gan gynyddu'r cyfanswm i £10 miliwn. Bwriad y cynnydd hwn yw cryfhau gwasanaethau rheng flaen ac ymestyn ymdrechion y ymyrryd yn gynnar ac atal.[42] Mae cyllideb gyfalaf o £3.1 miliwn hefyd ar gael i wella cyfleusterau lloches, gwella mesurau diogelwch, a chynyddu hygyrchedd, gyda disgwyl i dros 20 o brosiectau elwa ar hynny. Tynnodd yr Ysgrifennydd Cabinet sylw at sut y mae'r llywodraeth yn ymateb i argymhellion a wnaed gan y Pwyllgor yn y gorffennol, gan gynnwys argymhellion mewn perthynas â menywod nad oes ganddynt hawl i gyllid cyhoeddus.

[40] Llywodraeth Cymru, Teithio ar fysiau a threnau am ddim ar gyfer ffoaduriaid, 22 Mai 2022
[41] Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol, Papur i'w nodi 2.2 gohebiaeth gan yr Ysgrifennydd Cabinet ynghylch tocynnau croeso i geiswyr lloches, 17 Tachwedd 2025
[42] Llywodraeth Cymru, Tystiolaeth Ysgrifenedig, 24 Tachwedd 2025

**43.** Pan ofynnwyd pam nad oedd y Gyllideb Ddrafft yn cynnwys cyllid penodol i gefnogi plant, dywedodd yr Ysgrifennydd Cabinet yr eir i'r afael ag anghenion plant drwy'r gyllideb priff ffrwd ar gyfer VAWDASV a bod partneriaethau rhanbarthol hefyd yn ariannu gwasanaethau arbenigol sydd mewn gwirionedd yn cefnogi plant yn uniongyrchol.[43]

**Casgliad 5.** Rydym yn croesawu dull Llywodraeth Cymru o fynd i'r afael â thrais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol, yn enwedig ei phwyslais ar atal, ond rydym yn pryderu nad oes cyllideb benodol ar gyfer plant. Mae hyn er gwaethaf ffrwd waith genedlaethol sy'n rhan o'r strategaeth trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol . Gallai bod yn ddibynnol ar gyllid prif ffrwd greu'r risg nad yw anghenion plant yn cael eu diwallu neu eu blaenoriaethu'n gyson ar draws rhanbarthau. Er mwyn sicrhau bod anghenion plant yn cael eu diwallu'n gyson, dylai Llywodraeth Cymru ystyried mapio gwasanaethau arbenigol i blant ar draws rhanbarthau. Byddai hyn yn helpu i nodi bylchau, yn osgoi dyblygu gwaith ac yn llywio penderfyniadau cyllido yn y dyfodol. Heb mapio, gallai cyllid prif-ffrwd arwain at ddarpariaeth anwastad.

## Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu

**44.** Dywedodd yr Ysgrifennydd Cabinet wrthym y byddai cyllid ar gyfer Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu yn aros yr un fath ar gyfer y flwyddyn ariannol hon ac y byddai cyfanswm y dyraniad yn codi o £16 miliwn i £16.3 miliwn yn 2026-27. Esboniodd yr Ysgrifennydd Cabinet y rhesymau y tu ôl i'r buddsoddiad hwn:

> *"PCSOs make such a difference in our communities, at the front line of policing. We're doing a review of PCSOs, which will be helpful in terms of evaluation, but also I think this is part of our conversations and a case for devolving policing to Wales, about the fact that we have put all this investment into PCSOs for so many years."*[44]

### Ein barn ni

Yn ein hadroddiad ar Gyllideb Ddrafft 2024-25, gwnaethom argymell cynnal gwerthusiad o gefnogaeth Llywodraeth Cymru i Swyddogion Cymorth

[43] Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol, 24 Tachwedd 2025, paragraff 135
[44] Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol, 24 Tachwedd 2025, paragraff 147

Cymunedol yr Heddlu, ond nid ydym wedi gweld unrhyw ddeilliannau eto, er gwaethaf cadarnhad y byddai gwerthusiad yn cael ei gynnal.

**Casgliad 6.** Rydym yn cydnabod y cyfraniad gwerthfawr y mae Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu yn ei wneud i ddiogelwch cymunedol ledled Cymru. Ar yr un pryd, rydym yn nodi mai un cyfiawnhad dros wario adnoddau Llywodraeth Cymru ar faes nad yw wedi'i ddatganoli, oedd i bontio bwlch cyllido a grëwyd gan doriadau'r Swyddfa Gartref. Yn dilyn y newid yn llywodraeth San Steffan, a chynnydd i'r gyllideb plismona, rydym o'r farn ei bod nawr yn amser addas i edrych ar ddyfodol hirdymor y trefniadau hyn a'r gwaith pontio o ran cyfrifoldeb ffurfiol ar gyfer darparu Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu. Nodwn fod Llywodraeth Cymru wedi gwerthuso cyfraniad y Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu y mae'n eu hariannu ac rydym yn cytuno y dylid cyhoeddi hwn a'i rannu gyda'r Pwyllgor erbyn 31 Ionawr 2026 fan bellaf.

## Therapi lleferydd ac iaith yn y system cyfiawnder ieuenctid

**45.** Yn ei phapur, disgrifiodd yr Ysgrifennydd Cabinet y trefniadau cymhleth sy'n sail ar gyfer ariannu therapi iaith a lleferydd yn y system cyfiawnder ieuenctid, gan nodi:

- Bod pob Bwrdd Iechyd Lleol yng Nghymru yn darparu therapi iaith a lleferydd fel triniaeth iechyd lle mae angen clinigol am hynny.
- Er mwyn cyflawni eu rôl statudol neilltuol, dylai timau cyfiawnder ieuenctid ddarparu gwasanaethau pellach sy'n ymwneud ag anghenion iaith a chyfathrebu lleferydd y tu hwnt i'r hyn a ddarperir gan eu Bwrdd Iechyd Lleol.
- Gall awdurdodau lleol sy'n ystyried bod arnynt angen darpariaeth ychwanegol, gyflogi eu therapyddion lleferydd ac iaith eu hunain yn uniongyrchol, neu gomisiynu ac ariannu darpariaeth drwy gyflogwr arall, fel y GIG neu'r sector preifat.

**46.** Yn ôl yr Ysgrifennydd Cabinet, gallai awdurdodau lleol gael mynediad at nifer o ffrydiau cyllido ar gyfer hyn, a bod uwchgynhadledd y llynedd wedi tynnu sylw at sawl enghraifft o lle mae hyn eisoes yn gweithio'n dda.[45]

[45] Llywodraeth Cymru, Tystiolaeth Ysgrifenedig, 24 Tachwedd 2025

**47.** Mae rhywfaint o gyllid yn cael ei ddarparu gan Lywodraeth y DU ar ffurf y rhaglen Turnaround ond roedd yr Ysgrifennydd Cabinet yn aneglur ynglyn â'i ymestyn ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf.[46]

### Ein barn ni

Fel y nodwyd yn ein hadroddiad blaenorol: mae gan 60 y cant o'r bobl ifanc sy'n ymwneud â'r system cyfiawnder ieuenctid Anghenion Iaith, Lleferydd a Chyfathrebu o'i gymharu ag amcangyfrif o 10 y cant o'r boblogaeth gyfan. Rydym yn dal i bryderu nad yw anghenion y plant a'r bobl ifanc hyn yn cael eu diwallu a bod Llywodraeth Cymru, Byrddau Iechyd Lleol a'r Weinyddiaeth Gyfiawnder gyda'i gilydd, yn methu â mynd i'r afael â'r mater difrifol hwn. Mae gwariant ar y mater hwn nid yn unig yn fater o degwch ond mae'n amlwg yn enghraifft o wariant ataliol. Mae lleihau cyfraddau aildroseddu ac atal cynifer o bobl ifanc ag anghenion iaith, lleferydd a chyfathrebu rhag mynd i mewn i'r system gyfiawnder yn y lle cyntaf yn rhatach na pharhau gyda'r status quo.

**Casgliad 7.** Dylai Llywodraeth Cymru gydweithio â phartneriaid a rhoi'r gorau i drosglwyddo'r cyfrifoldeb i eraill ar y mater hwn. Rydym yn ailadrodd argymhellion ein hadroddiad yn 2023 ac yn galw ar Weinidogion i gyflwyno cynlluniau credadwy sydd â chyllid pwrpasol er mwyn sicrhau bod digon o gymorth yn cael ei ddarparu i bobl ifanc ag anghenion iaith, lleferydd a chyfathrebu sydd yn y system cyfiawnder ieuenctid.

# 7. Y Trydydd Sector

**48.** Mae'r Prif Grŵp Gwariant Cyfiawnder Cymdeithasol yn cynnwys dyraniadau cyllid ar gyfer y trydydd sector, a ddyrennir yn bennaf trwy'r llinell wariant "Cymorth i'r Sector Gwirfoddol" yn y Gyllideb. Yn ogystal â'r cynnydd chwyddiannol, mae'r Gyllideb Ddrafft yn darparu £400,000 ychwanegol mewn refeniw a £1.5 miliwn mewn cyfalaf trafodiadau ariannol i gefnogi gweithgarwch y trydydd sector ledled Cymru.

**49.** Yn ystod sawl ymchwiliad a sawl sesiwn graffu ar y gyllideb ddrafft, mae'r Pwyllgor wedi clywed yn gyson am yr anawsterau y mae sefydliadau'r trydydd sector yn eu hwynebu wrth gael mynediad at gyllid, yn enwedig y ddibyniaeth ar grantiau bach, tymor byr sy'n gofyn am adrodd a monitro helaeth. Yn ei hymateb i adroddiad y Pwyllgor ar Gyllideb Ddrafft 2025-26, dywedodd Llywodraeth

[46] Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol, 24 Tachwedd 2025, paragraff 145

Cymru fod trefniadau newydd ar waith i gefnogi cylchoedd ariannu hwy, aml-flwyddyn lle bo hynny'n briodol. Mae'r trefniadau hyn wedi'u cryfhau ymhellach fel rhan o'r cod ymarfer diwygiedig ar gyfer y trydydd sector, yn ôl yr Ysgrifennydd Cabinet.[47]

**50.** Dywedodd yr Ysgrifennydd Cabinet wrthym ei bod wedi bod yn ymwybodol iawn o effaith y cynnydd mewn yswiriant gwladol wrth wneud penderfyniadau am ddyraniadau ar gyfer y trydydd sector. Ar ôl ein sesiwn ar 26 Tachwedd, cyhoeddodd Canghellor y Trysorlys, Rachel Reeves AS, gynnydd yn y Cyflog Byw Cenedlaethol a'r Isafswm Cyflog Cenedlaethol o fis Ebrill 2026, fel rhan o fesurau'r Gyllideb.[48]

## Ein barn ni

Mae'r trydydd sector yn chwarae rhan hanfodol wrth gefnogi pobl ledled Cymru, gan ddarparu llu o wasanaethau. Ac eto, mae llawer yn nodi eu bod yn delio â phwysau ariannol, a waethygwyd gan gynnydd y llynedd yng Nghyfraniadau Yswiriant Gwladol Cyflogwyr a chynnydd yn y Cyflog Byw Cenedlaethol. Mae'r ymrwymiad i setliadau ariannol aml-flwyddyn yn mynd dipyn o’r ffordd wrth fynd i'r afael â hyn, ond mae angen ei ymgorffori'n llawn yn y broses o wneud penderfyniadau ar draws cyrff cyhoeddus i sicrhau’r effaith fwyaf.

**Casgliad 8.** Rydym yn croesawu'r ymrwymiad i setliadau ariannol aml-flwyddyn sydd wedi'u cynnwys yn y Cod Ymarfer ar gyfer Ariannu'r Trydydd Sector a chredwn y dylai Llywodraeth Cymru fonitro’r defnydd ohono ar draws y portffolio i sicrhau ei fod yn cael ei normaleiddio ledled y llywodraeth.

[47] Llywodraeth Cymru, Tystiolaeth Ysgrifenedig, 24 Tachwedd 2025
[48] Trysorlys Ei Fawrhydi, Cyllideb 2025 yn llawn, 26 Tachwedd 2025 (Saesneg yn unig)

# Atodiad : Pwyntiau dilynol Cyllideb Ddrafft 2026-27

Paragraff 7: cytunodd Ysgrifennydd y Cabinet i ddarparu mwy o fanylion am effaith undebau credyd gan gynnwys eu heffeithiolrwydd cyffredinol a'u rôl wrth gyflawni canlyniadau cyfiawnder cymdeithasol.

Ym mis Medi 2025, cyhoeddwyd adolygiad llenyddiaeth o arferion gorau undebau credyd. Er bod y sylfaen dystiolaeth ryngwladol yn gyfyngedig, mae'n nodi bod undebau credyd mewn gwledydd defnydd uchel yn tueddu i fod â threfniadau marchnata cryf, ystod eang o wasanaethau a chefnogaeth technoleg a modelau busnes mwy proffesiynol.

Effaith gyfunol tair ffrwd ariannu Llywodraeth Cymru

Mae'n anodd mesur union effaith cyllid Llywodraeth Cymru ar undebau credyd gan fod y naw undeb credyd blaenllaw yng Nghymru wedi derbyn cyllid o amrywiol ffynonellau gan Lywodraeth Cymru dros y blynyddoedd diwethaf. Mae'r rhain yn cynnwys cyllid cyfalaf ar gyfer datblygiadau ym maes technoleg ariannol a cherbyd bancio symudol, cyllid ehangu benthyciadau a chyllid prosiectau ar gyfer codi ymwybyddiaeth yn y gymuned.

Fodd bynnag, mae'r data monitro yn dangos bod buddsoddiad Llywodraeth Cymru wedi cefnogi undebau credyd i gynyddu benthyca flwyddyn ar ôl blwyddyn, gan ddenu miloedd o gwsmeriaid newydd bob blwyddyn, sicrhau twf mewn cyrhaeddiad, a chryfhau eu sefyllfa ariannol drwy sicrhau effeithlonrwydd.

Mae'r data monitro hefyd yn dangos bod 7,000 o aelodau newydd wedi ymuno â'r 9 undeb credyd y mae Llywodraeth Cymru wedi darparu cyllid iddynt dros y 12 mis diwethaf. Er bod yr ystadegau aelodaeth oedolion yn aros yn fras ar yr un lefelau, nid yw hyn yn adlewyrchu 'twf' gan fod miloedd o bobl bob blwyddyn yn ymuno i fenthyca ac yna'n gadael pan fyddant wedi ad-dalu'r benthyciad.

Mae ystadegau diweddaraf Banc Lloegr, a gyhoeddwyd ar 31 Hydref 2025, yn dangos bod undebau credyd Cymru yn cryfhau eu sefyllfa flwyddyn ar ôl blwyddyn, gyda benthyca yn cynyddu'n raddol. Mae hyn hefyd yn dangos eu gwydnwch, gan barhau i wneud elw ar y cyd, rhywbeth nad yw'n wir am undebau credyd Lloegr a'r Alban.

Mae prif bwyntiau'r data yn dangos:

Mae nifer y benthyciadau bob blwyddyn yn cynyddu, gan godi 3.5%, 5.5%, 13% a *3% dros y 4 blynedd diwethaf, gan gyrraedd y lefel uchaf erioed. (*Sylwer fod y twf o 3% dros y 12 mis diwethaf yn eithrio ystadegau benthyca cyfnod y Nadolig ar gyfer 2025-26, felly bydd yn uwch na 3% ar gyfer y cyfnod 12 mis diwethaf).

Mae Llywodraeth Cymru wedi darparu £3.4m i 9 undeb credyd ers 2022 i ehangu benthyca drwy warantu benthyciadau i bobl sydd wedi'u cau allan o fenthyca prif ffrwd yn sgil risg. Caiff hyn ei ailgylchu gan fod y benthyciadau'n cael eu had-dalu. Mae'n darparu benthyciadau 'cychwynnol' neu fenthyciadau 'adeiladu credyd' i fenthycwyr a chanddynt hanes credyd gwael.

Y canlyniad yw bod 6,200 o fenthyciadau fforddiadwy ychwanegol sy'n werth cyfanswm o £3.7m wedi cael eu dyfarnu ers 2022 i bobl y byddai credyd fel arfer yn cael ei wrthod iddynt ac sydd mewn perygl o ddefnyddio credyd cost uwch neu fathau anghyfreithlon o gredyd.

Gyda'i gilydd, mae undebau credyd Cymru mewn sefyllfa gadarn, heb adrodd colled ar y cyd, rhywbeth y mae undebau credyd yr Alban a Lloegr wedi'i wneud y flwyddyn ddiwethaf.

Paragraff 32: dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet y bydd Taliadau Cymorth Brys a wneir drwy'r Gronfa Cymorth Dewisol yn cael eu codi 8.1% o 1 Ionawr 2026. Byddem yn ddiolchgar o gael eglurhad ynghylch a fydd cyllid ychwanegol ar gael i dalu am y cynnydd hwn, neu a fydd yn cael ei dalu o fewn y cronfeydd presennol.

Bydd y cynnydd o 8.1% i'r Taliadau Cymorth Brys o 1 Ionawr 2026 yn cael ei wneud o fewn y cronfeydd presennol.

Paragraff 40: Gofynnodd y Pwyllgor wrth graffu am y newid o ran cymhwystra i rieni nad ydynt yn cael budd-dal plant.

Yn sgil y newid cymhwystra o ran y Gronfa Cymorth Dewisol i rieni â chyfrifoldebau gofal plant nad ydynt yn cael budd-dal plant, pan fo un rhiant â chyfrifoldebau gofal plant ffurfiol yn cael budd-dal plant, ond nad yw'r llall yn cael y budd-dal, o 1 Ionawr 2026 bydd yn bosibl i'r rhiant nad yw'n cael y budd-dal plant gael Taliad Cymorth Brys uwch ar gyfer 2 neu ragor o bobl. Mae hyn i gydnabod rhieni sy'n rhannu cyfrifoldebau ac i gefnogi rhieni â'u cyfrifoldebau gofal plant. Yn flaenorol, dim ond taliad aelwyd 1 person y gallai unigolyn yn y sefyllfa hon ei gael o dan y Gronfa Cymorth Dewisol. Mae elfen Taliad Cymorth i Unigolion y Gronfa Cymorth Dewisol eisoes wedi'i newid, ym mis Hydref 2025, i alluogi unigolion â chyfrifoldeb rhiant nad ydynt yn cael budd-dal plant i hawlio

dodrefn i wneud lle diogel a chyfforddus i fwy nag un person, gan adlewyrchu eu cyfrifoldebau gofal plant.

Paragraff 46: cytunodd Ysgrifennydd y Cabinet i roi rhagor o fanylion ar yr adborth a gafwyd sydd wedi llywio'r penderfyniad i newid o ffriwyr aer i boptai trydan.

I egluro, pe bai'r penderfyniad hwn yn cael ei wneud, ni fydd yn benderfyniad rhwng y naill a'r llall. Pe bai Ysgrifennydd y Cabinet yn penderfynu ychwanegu poptai trydan at elfen Taliad Cymorth i Unigolion y Gronfa Cymorth Dewisol, o 1 Mehefin 2026 byddai ymgeiswyr yn gallu dewis rhwng bwndel coginio (gan gynnwys ffriwr aer, popty araf, plât poeth a microdon) neu bopty cownter gyda hob neu bopty trydan. Ar hyn o bryd mae'r dewis rhwng bwndel coginio neu bopty cownter gyda hob.

Mae'r opsiwn hwn yn cael ei ystyried yn dilyn adborth gan sefydliadau sy'n gweithio gyda'r rhai sy'n gwneud cais ar gyfer y Gronfa Cymorth Dewisol y byddai hyn yn ychwanegiad cadarnhaol. Os cytunir, bydd hyn yn cael ei gyflwyno o fewn y gyllideb bresennol.

Paragraff 55: cyfeiriodd Ysgrifennydd y Cabinet at gymorth i ddatgloi dros £10 miliwn o ymddiriedolaethau a sefydliadau segur, a phot o £7.5 miliwn. Byddem yn ddiolchgar am eglurhad pellach ynghylch y gronfa hon, gan gynnwys sut y caiff ei dosbarthu.

Mae'r £10m mewn ymddiriedolaethau segur wedi'u datgloi yn cyfeirio at Ymddiriedolaeth Adfywio Cymru. Mae hon yn bartneriaeth rhwng Llywodraeth Cymru, y Comisiwn Elusennau a Sefydliad Cymunedol Cymru. Fe wnaethom ddarparu swm bach o gyllid i'r Comisiwn Elusennau (tua £200k yn 2021-22 a 2023-24 er bod y gwaith ar yr Ymddiriedolaeth wedi parhau hyd fis Mawrth 2025) i'w helpu i dargedu elusennau yng Nghymru a oedd wedi bod yn segur neu'n aneffeithiol. Fe wnaeth y gwaith adfywio cronfeydd gwerth dros £10m, naill ai drwy gael elusennau i gymryd lle ymddiriedolwyr a dechrau gweithio eto, drwy drosglwyddo arian i elusen debyg sy'n weithredol, neu drwy drosglwyddo arian i Sefydliad Cymunedol Cymru i ddod yn rhan o'u gweithgareddau ariannu.

Mae'r £7.5m (£5m yn 2021-22, £1m yn 2024-25 a £1.5m yn 2025-26) yn cyfeirio at y Gronfa Benthyciadau Asedau Cymunedol. Mae hyn yn cael ei weithredu ar ein rhan gan Buddsoddiad Cymdeithasol Cymru, sy'n rhan o CGGC, ac mae'n darparu benthyciadau hirdymor ar gyfer pryniannau neu welliannau i eiddo. Mae'r Gronfa Benthyciadau Asedau Cymunedol yn cynnig benthyciadau i

sefydliadau sector gwirfoddol corfforedig sy'n ceisio cymryd perchnogaeth o asedau cymunedol. Mae'n ategu ein gwaith ar y Rhaglen Cyfleusterau Cymunedol.

Paragraff 73: cyfeiriodd Ysgrifennydd y Cabinet at linell gymorth i bobl wneud cais am y bwndeli babi. Byddem yn ddiolchgar am eglurhad ynghylch a fydd unigolion cymwys yn cael eu cofrestru'n awtomatig ar gyfer y cynllun drwy eu bydwraig.

Bydd bydwragedd yn llenwi ffurflen gofrestru gyda menywod cymwys yn ystod eu hapwyntiad cynenedigol pan fyddant tua 25 wythnos yn feichiog, os hoffent gael Bwndel Babi. Ar ôl ei llenwi, bydd y fydwraig yn postio'r ffurflen, sy'n cofrestru'r teulu ar gyfer eu Bwndel Babi.

Os yw rhiant newydd yn byw mewn ardal gymwys yng Nghymru ac wedi colli'r cyfle i gofrestru yn yr apwyntiad 25 wythnos am reswm dilys, bydd y fydwraig yn dal i allu cofrestru'r rhiant nes bod y babi yn 4 mis oed. Dylai rhieni yn y sefyllfa hon gysylltu â'u bydwraig i drafod cofrestru.

Mae llinell gymorth wedi'i sefydlu i gefnogi teuluoedd a gweithwyr proffesiynol a chanddynt gwestiynau am y Bwndeli Babi, er enghraifft os oes rhywbeth ar goll, os yw'r blwch wedi'i ddifrodi neu os oes angen canslo'r bwndel.

(Paragraff 106) Amlinelliad o gyllid penodol a ddyrannwyd ar gyfer gweithredu'r Cynllun Gweithredu Hawliau Pobl Anabl.

Mae pob maes polisi ar draws y llywodraeth yn gyfrifol am roi'r camau gweithredu yn y Cynllun Hawliau Pobl Anabl ar waith. Disgwylir i bob adran ariannu a chyflawni'r camau sy'n berthnasol i'w cylch gwaith, gan ddefnyddio eu cyllidebau eu hunain i wneud hynny. Mae'r dull gweithredu hwn yn sicrhau perchnogaeth ac atebolrwydd ar bob lefel.

Nid yw tegwch i bobl anabl yn unig bryder i unrhyw adran unigol; yn hytrach, mae'n gyfrifoldeb a rennir lle mae angen ymrwymiad ar y cyd. Rhaid i bob maes polisi weithio gyda'i gilydd i ymgorffori cynhwysiant a thegwch, gan sicrhau bod ystyriaethau tegwch i bobl anabl yn cael eu hintegreiddio ym mhob rhan o'r llywodraeth ac nad ydynt byth yn cael eu trin ar wahân.

Mae ymrwymiadau ariannol sylweddol eisoes wedi'u hamlinellu ar draws y llywodraeth, gan ddangos bwriad clir i wella canlyniadau i bobl anabl. Mae'r ymrwymiadau hyn wedi'u cynllunio i gefnogi cyflawniad a llwyddiant y Cynllun,

gan sicrhau bod cynnydd yn cael ei wneud tuag at fwy o gydraddoldeb a chynhwysiant i bobl anabl yng Nghymru.

(Paragraffau 109 – 111) Cadarnhad ynghylch pryd y bydd y gwasanaeth cyfreithiol cydraddoldeb yn weithredol.

Disgwyliwn i'r gwasanaeth ddechrau gweithredu o ddechrau mis Ebrill 2026. Byddwn yn gweithio gyda sefydliadau arweiniol i ddatblygu'r model cyflawni ar gyfer gofynion y gwasanaeth, ac yn adolygu ac asesu ei effeithiolrwydd yn rheolaidd, yn seiliedig ar ddata monitro sydd i'w casglu.

Paragraff 134 a 135: cytunodd Ysgrifennydd y Cabinet i ddarparu mwy o fanylion am unrhyw gyllid ar gyfer plant a gwasanaethau arbenigol i blant yng nghyd-destun cyllideb trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol.

Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod bod plant y mae Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (VAWDASV) yn effeithio arnynt yn profi trawma sylweddol a bod angen cymorth arbenigol arnynt. Darperir rhai gwasanaethau a chymorth i blant y mae VAWDASV yn effeithio arnynt drwy ein cyllid grant craidd i ranbarthau a'n cyllid i sefydliadau trydydd sector VAWDASV arbenigol. Bydd hyn yn ategu gweithgareddau gan adrannau eraill o'r Llywodraeth gan gynnwys Gwasanaethau Cymdeithasol, Addysg ac Iechyd.

O fewn y gyllideb VAWDASV, rwy'n darparu cyllid i sefydliadau trydydd sector VAWDASV arbenigol i ddarparu rhai gwasanaethau ledled Cymru. Mae'r cyllid ar gyfer y sefydliadau hyn yn cynnwys gwaith penodol i blant a phobl ifanc, er enghraifft gweithwyr allweddol plant, grwpiau i blant sy'n wynebu risg o ddioddef cam-fanteisio rhywiol, a Chynghorwyr Trais Domestig Annibynnol ar gyfer Plant.

Yn 2025-26 rwyf wedi darparu £4m o gyllid i'r chwe rhanbarth VAWDASV. Mae pob un o'r rhanbarthau yn penderfynu sut i wario eu dyraniad yn seiliedig ar eu hanghenion eu hunain ac ar gyflawni eu hamcanion strategol rhanbarthol. Bydd hyn yn amrywio o flwyddyn i flwyddyn. Dyma rai enghreifftiau o'r rhanbarthau:

Mae'r Gogledd yn ariannu Cynghorydd Trais Rhywiol Plant a Phobl Ifanc o fewn y Ganolfan Atgyfeirio Ymosodiadau Rhywiol. Maent hefyd yn ariannu gweithwyr Plant a Phobl Ifanc ac arweinwyr yn Gorwel, DASU a Cymorth i Ferched Clwyd Alyn.

Mae Gwent yn ariannu gwaith atal ymhlith plant a phobl ifanc.

Mae Cwm Taf Morgannwg yn ariannu gweithiwr lloches Plant a Phobl Ifanc mewn Gwasanaeth Cam-drin Domestig yn Rhondda Cynon Taf a Gwasanaethau Plant a Phobl Ifanc Cwm Taf Morgannwg, ynghyd â chwnselydd trais rhywiol arbenigol drwy Brosiect Assia Llwybrau Newydd.

Mae rhai rhanbarthau hefyd yn ariannu Cynghorwyr Trais Rhywiol Plant a Phobl Ifanc neu Gynghorwyr Trais Rhywiol Annibynnol ar gyfer Plant sy'n Gynghorwyr Trais Rhywiol Annibynnol wedi'u hyfforddi'n arbennig sy'n cefnogi plant a phobl ifanc sydd wedi profi ymosodiad rhywiol.

Yn ogystal â hyn, mae rhai rhanbarthau yn ariannu gwasanaethau arbenigol fel cwnsela, therapi chwarae ac eiriolaeth i blant sy'n agored i gam-drin domestig.

Cyfrannodd cyllideb VAWDASV hefyd at Brosiect Sbectrwm - Stori Cymru sy'n gweithio gydag ysgolion i hyrwyddo a deall perthnasau iach drwy eu cwricwlwm Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb.

Rydym hefyd yn ariannu rhaglen benodol yng Ngwent/Dyfed Powys sy'n cael ei rhedeg gan Llwybrau Newydd ar gyfer plant sydd wedi profi cam-drin rhywiol ac sy'n arddangos ymddygiad rhywiol niweidiol neu broblemus.

Yn ddiweddar, cyhoeddais fuddsoddiad o £2.4 miliwn gan Lywodraeth Cymru i gefnogi goroeswyr trais rhywiol i gael mynediad at gwnsela arbenigol a chymorth emosiynol yn gyflymach. Bydd y cyllid yn mynd i Llwybrau Newydd, Cerrig Camu, Canolfan Gymorth Gogledd Cymru i Oroeswyr Treisio a Cham-drin Rhywiol a Cymorth i Fenywod - Cyfannol. Bydd y cymorth ychwanegol yn caniatáu i'r sefydliadau hyn gynnig mwy o apwyntiadau, recriwtio cwnselwyr arbenigol a darparu gofal amserol sy'n ystyriol o drawma i oroeswyr (gan gynnwys plant) ledled Cymru.

Rydym yn ariannu'r llinell gymorth Byw Heb Ofn sy'n cynnig gwybodaeth, cyngor a chymorth cyfrinachol ynghylch trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol. Mae'r llinell gymorth ar gyfer unrhyw un o unrhyw oedran neu rywedd, p'un a yw rhywun yn poeni amdanynt hwy eu hunain neu rywun y maent yn ei adnabod, a ph'un a yw'r cam-drin neu'r trais yn digwydd nawr neu yn y gorffennol, ac mae'n ymdrin â thrais domestig a thrais gan ddieithriaid. Gall eiriolwyr y llinell gymorth frysbennu anghenion unigolyn a chyfeirio neu atgyfeirio i arbenigwyr i barhau â'r gefnogaeth yn y ffordd fwyaf priodol.

Rydym wedi comisiynu ymchwil i edrych ar y dirwedd o ran data VAWDASV yng Nghymru i'n helpu i nodi a mynd i'r afael ag unrhyw fylchau allweddol yn y data, gan gynnwys ar gyfer grwpiau penodol fel plant a phobl ifanc. Rydym hefyd yn

bwriadu cynnal ymarfer mapio ledled Cymru yn 2026 mewn cydweithrediad â darparwyr gwasanaeth presennol i ddeall beth sydd ar gael i blant ledled Cymru ar hyn o bryd a nodi unrhyw fylchau yn y ddarpariaeth bresennol.

Paragraff 121: nododd Ysgrifennydd y Cabinet fod cynnydd o 25% wedi bod yn y cyllid ar gyfer cydlynydd cydlyniant cymunedol i £1.6 miliwn ar gyfer y flwyddyn ariannol hon. Byddem yn croesawu eglurhad ynghylch sut y cyrhaeddwyd y ffigur o 25%.

Y gyllideb ar gyfer y Rhaglen Cydlyniant Cymunedol (gan gynnwys grantiau bach) yn 2024-25 oedd £1.28m. Yn 2025-26, cynyddwyd y gyllideb honno i £1.6m - cynnydd o 25%.

Paragraff 128-129 cytunodd Ysgrifennydd y Cabinet i ddarparu mwy o fanylion am yr hyn a ddigwyddodd i'r £0.7 miliwn a ddyrannwyd yn wreiddiol i'r cynllun tocynnau croeso.

Gwnaed y penderfyniad i beidio â bwrw ymlaen â'r Tocyn Croeso ddiwedd mis Hydref. Rydym bellach yn edrych ar opsiynau ar gyfer y ffordd orau o ailddyrannu neu addasu'r gyllideb hon fel ei bod yn cyflawni ymrwymiadau ein llywodraeth.

Byddwn yn ymateb i lythyr diweddar y Pwyllgor yn gofyn am ragor o fanylion ynghylch y Tocyn Croeso.

Paragraffau 152 – 167: cytunodd Ysgrifennydd y Cabinet i roi eglurder pellach ar ddadansoddiad y ffigur o 236 o leiniau gan gynnwys y gyfran sydd wedi'u cwblhau; yn cael eu datblygu ac wedi'u cynnig. Byddai'r Pwyllgor hefyd yn gwerthfawrogi dadansoddiad daearyddol manwl gywir os yn bosibl gan gynnwys enwau unrhyw awdurdodau lleol nad ydynt wedi cyflwyno cynigion ar gyfer llain eto fel sy'n ofynnol o dan Ddeddf Tai (Cymru) 2014.

Ar hyn o bryd mae 424 o leiniau a 26 o safleoedd ar draws 16 o awdurdodau lleol yng Nghymru.

Mae'r ffigur o 229 o leiniau newydd yn cynnwys nifer y lleiniau newydd a ddatblygir gyda chaniatâd cynllunio (35) a nifer y lleiniau newydd y mae awdurdodau lleol wedi hysbysu Llywodraeth Cymru eu bod yn bwriadu gwneud cais am gyllid ar eu cyfer yn y dyfodol heb ganiatâd cynllunio ar hyn o bryd (194). Nid yw'r ffigur hwn yn derfynol; mae'n rhoi amcan o brosiectau posibl i'r dyfodol yn unig.

Ers 2022-23, nid oes unrhyw leiniau newydd ond mae cyllid wedi'i gymeradwyo ar hyn o bryd ar gyfer pum llain newydd.

Ceir dadansoddiad yn y tabl isod fesul awdurdod lleol.

| Dadansoddiad o Safleoedd Sipsiwn a Theithwyr a gynhelir gan awdurdodau lleol ledled Cymru* | | | |
|---|---|---|---|
| Awdurdod Lleol | Nifer y safleoedd (a'r lleiniau) ar hyn o bryd<br>ar 2 Rhagfyr 2025 | Nifer y lleiniau newydd a ddatblygir gyda chaniatâd cynllunio | Nifer y lleiniau newydd arfaethedig i'r dyfodol heb ganiatâd cynllunio ar hyn o bryd |
| Blaenau Gwent | 1 safle(19 llain) | 0 | 20 |
| Pen-y-bont ar Ogwr | 0 | 0 | 0 |
| Caerffili | 0 | 0 | 0 |
| Caerdydd | 2 (80 llain) | 4 | 80 |
| Sir Gaerfyrddin | 1 (15 llain) | 0 | 4 |
| Ceredigion | 0 | 0 | 0 |
| Conwy | 1(4 llain) | 1 | 1 |
| Sir Ddinbych | 1(4 llain dors dro) | 0 | 4 |
| Sir Fflint | 1(20 llain) | 0 | 6 (transit) |
| Gwynedd | 1(12 llain) | 0 | 19 |
| Merthyr Tudful | 1(24 llain) | 0 | 0 |
| Sir Fynwy | 0 | 0 | 7 |
| Castell-nedd Port Talbot | 2(67 llain) | 0 | 0 |
| Casnewydd | 1(3 llain) | 6 | 0 |
| Sir Benfro | 5 (74 llain) | 0 | 20 |
| Powys | 3 (31 llain) | 0 | 12 |
| Rhondda Cynon Taf | 1 (6 llain) | 0 | 9 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Abertawe | 2(16 llain) | 24 | 0 |
| Torfaen | 2(34 llain) | 0 | 0 |
| Bro Morgannwg | 0 | 0 | 0 |
| Wrecsam | 1(15 llain) | 0 | 2 |
| Ynys Môn | 0 | 0 | 10 (Mannau Aros a Gytunwyd) |
| Cyfanswm | 26 safle (424 o leiniau) | 35 | 194 |

Hyd yma mae Pen-y-bont ar Ogwr, Caerffili, Ceredigion, Merthyr Tudful, Castell-nedd Port Talbot, Torfaen a Bro Morgannwg i gyd wedi nodi anghenion heb eu diwallu yn eu Hasesiadau Llety Sipsiwn a Theithwyr ond nid ydynt eto wedi cyflwyno cynigion i Lywodraeth Cymru am gyllid ar gyfer llain/lleiniau i helpu i ddiwallu eu hanghenion fel sy'n ofynnol o dan Ddeddf Tai (Cymru) 2014.

*ffigurau'n gywir yn ystod hydref 2025